Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru
# Asesiad Effaith Integredig

# Papur Gwyn ar Les Anifeiliaid Gwyllt

## Crynodeb o'r cynnig

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch dau gynnig mewn perthynas â lles anifeiliaid gwyllt y mae'n bosibl y byddan nhw cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol. Byddai Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) arfaethedig yn cyflwyno tymor caeedig statudol pan fyddai'n anghyfreithlon lladd neu anafu ysgyfarnogod yn fwriadol neu'n ddi-hyd neu gymryd ysgyfarnogod, a throsedd newydd, sef aflonyddu ar forloi yn fwriadol neu'n ddi-hyd. Bwriad y cynigion yw mynd i'r afael â bylchau ac anghysondebau a nodwyd o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, lleihau niwed y gellir ei osgoi i anifeiliaid gwyllt a chefnogi rhyngweithio cyfrifol â bywyd gwyllt. Mae'n bosibl y bydd y cynigion yn effeithio ar bobl a sefydliadau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gwledig, arfordirol, hamdden, masnachol, rheoli tir, gwyddonol, cadwraeth a gorfodi, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd.

**Cwestiynau am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

1. **Sut mae'r pum ffordd o weithio wedi llywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r polisi hwn neu'r ddeddfwriaeth hon?**

   Mae'r pum ffordd o weithio wedi arwain y gwaith o ddatblygu'r cynigion o gam cynnar. Mae meddwl **Hirdymor** wedi cael ei ddefnyddio i ystyried sut y gall y fframwaith deddfwriaethol barhau i ddarparu amddiffyniadau clir ac effeithiol ar gyfer lles anifeiliaid a chefnogi rhyngweithio cyfrifol â bywyd gwyllt. Byddai'r cynigion yn ffurfio cam cyntaf â ffocws o fewn rhaglen waith ehangach i wella hygyrchedd a chydgysylltiad deddfwriaeth bywyd gwyllt yng Nghymru.

   Mae **Atal** yn ganolog i'r ddau gynnig. Bwriad y cynnig i wneud aflonyddu ar forloi yn drosedd yw atal ymddygiad a allai achosi niwed y gellir ei osgoi, gan gynnwys straen, anafiadau a gwahanu mamau a morloi bach dibynnol. Bwriad y tymor caeedig arfaethedig ar gyfer ysgyfarnogod yw lleihau'r risg y bydd anifeiliaid beichiog neu anifeiliaid nyrsio'n cael eu lladd, eu hanafu neu eu cymryd yn ystod y tymor bridio, a lefrod dibynnol yn cael eu gadael heb fam. Byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei chefnogi gan ganllawiau, cyfathrebu ac ymarfer codi ymwybyddiaeth, a'r brif effaith arfaethedig yn aml fyddai dealltwriaeth well a newid ymddygiad yn hytrach nag erlyn.

   Mae **Integreiddio** wedi cynnwys ystyried y cynigion ochr yn ochr ag amcanion ehangach ar gyfer lles anifeiliaid, bioamrywiaeth, materion gwledig, amaethyddiaeth, cydraddoldeb a'r Gymraeg, yn ogystal â'u goblygiadau posibl ar yr economi a'r system gyfiawnder. Mae'r cynigion wedi cael eu cynllunio i wella lles anifeiliaid wrth ganiatáu i weithgareddau hamdden, masnachol, gwyddonol, cadwraeth, achub, adsefydlu a rheoli tir cyfrifol barhau. Bwriad y defnydd arfaethedig o eithriadau a threfniadau trwyddedu presennol yw darparu hyblygrwydd lle y gellir cyfiawnhau bod angen gweithgareddau.

   Mae **Cydweithio** wedi llywio datblygiadau polisi drwy waith ar draws Llywodraeth Cymru a gwaith ymgysylltu â chyrff gorfodi, Cyfoeth Naturiol Cymru, sefydliadau lles a chadwraeth anifeiliaid, a rhanddeiliaid sydd â diddordebau mewn rheoli tir, gweithgareddau gwledig, hamdden a bywyd gwyllt. Mae hyn wedi helpu i nodi bylchau yn y fframwaith presennol ac ystyried ymarferoldeb y cynigion, a ydyn nhw'n gymesur ac a fyddwn ni'n gallu gorfodi'r cyngion.

   Bydd **Cynnwys** yn parhau drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgysylltu â rhanddeiliaid cysylltiedig. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn a thystiolaeth mewn perthynas â'r cynigion, y ffordd y byddan nhw'n gweithio'n ymarferol, costau a

manteision, gweithredu a gorfodi, ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Bydd yr ymatebion yn cael eu defnyddio i brofi'r dystiolaeth a'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r cynigion, mireinio'r asesiadau effaith ac arwain Llywodraeth Cymru wrth iddyn nhw ystyried a ddylid bwrw ymlaen â'r cynigion, ac os felly sut.

2. **Gyda phwy rydych wedi cydweithio ac ymgysylltu wrth ddatblygu'r cynnig ac i ddeall ei effeithiau, gan gynnwys ar unigolion, aelwydydd, cyrff cyhoeddus, busnesau a'r trydydd sector (e.e. drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol neu drwy ymgynghori â'r cyhoedd)?**

Mae'r cynigion wedi cael eu datblygu drwy gydweithio ar draws Llywodraeth Cymru ac ymgysylltu â phartneriaid gorfodi a rhanddeiliaid. Mae hyn wedi cynnwys mewnbwn o ymchwil, polisi, dadansoddiadau ac asesiadau effaith, ynghyd â gweithio gyda'r heddlu a phartneriaid ym maes trosedd bywyd gwyllt, a sefydliadau cadwraeth/lles. Rydyn ni hefyd wedi ystyried rhanddeiliaid sydd â diddordebau mewn rheoli tir, amaethyddiaeth, saethu, hamdden arfordirol, twristiaeth bywyd gwyllt, gweithgareddau morol, ac achub ac adsefydlu bywyd gwyllt. Mae'r gwaith hwn wedi helpu i nodi'r bylchau a'r anghysondebau o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol ac ystyried y dystiolaeth dros y mesurau arfaethedig, a ydyn nhw'n gymesur, a fydd modd eu gorfodi a beth fydd y goblygiadau ymarferol.

Mae datblygiadau polisi hyd yn hyn wedi arwain y gwaith o ystyried y grwpiau y gellid effeithio arnyn nhw. Mae'r rhain yn cynnwys pobl sy'n ymweld â'r arfordir a defnyddio'r dŵr at ddibenion hamdden; ffotograffwyr bywyd gwyllt; gweithredwyr cychod, twristiaeth a hamdden; buddiannau pysgota masnachol; ymchwilwyr a chyrff addysgol; sefydliadau cadwraeth, achub ac adsefydlu morol; ffermwyr, perchnogion a rheolwyr tir; ystadau chwaraeon a buddiannau saethu; cymunedau gwledig ac arfordirol; awdurdodau gorfodi; ac aelodau o'r cyhoedd. Mae'r effeithiau a ragwelir ar y grwpiau hyn wedi cael eu hystyried drwy'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r asesiadau effaith unigol perthnasol.

Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn rhoi'r prif gyfle i ragor o bobl gymryd rhan yn y cam nesaf o ddatblygu polisi. Mae'n ceisio barn ynghylch y troseddau arfaethedig, eithriadau a threfniadau trwyddedu, dyddiadau arfaethedig ar gyfer tymor ysgyfarnogod caeedig, gweithredu a gorfodi, costau a manteision, grwpiau yr effeithir arnyn nhw a sut yr effeithir arnyn nhw, ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Mae hefyd yn ceisio'n benodol dystiolaeth i lywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Asesiad Effaith Integredig, gan gynnwys tystiolaeth am effeithiau ar y Gymraeg.

Bydd yr ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu cysylltiedig ar gael i unigolion a sefydliadau ledled Cymru. Bydd deunyddiau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg, bydd fformatau amgen ar gael ar gais, a gellir cyflwyno ymatebion yn y Gymraeg. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid yn cael eu defnyddio i brofi'r dystiolaeth a'r rhagdybiaethau, nodi unrhyw effeithiau nad ydyn ni'n gwybod amdanyn nhw ar hyn o bryd, mireinio'r asesiadau effaith a helpu Llywodraeth Cymru wrth iddyn nhw ystyried a ddylid bwrw ymlaen â'r cynigion, ac os felly sut.

3. **Sut mae'r polisi yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ac at ganlyniadau llesiant hirdymor?**

Mae'r cynigion yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwy geisio gwella lles anifeiliaid mewn ffordd sy'n cydbwyso ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Bwriedir iddyn nhw fynd i'r afael â bylchau ac anghysondebau penodol o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, lleihau

niwed y gellir ei osgoi i anifeiliaid gwyllt a chefnogi rhyngweithio cyfrifol â bywyd gwyllt. Mae'r mesurau arfaethedig wed'u targedu ac yn gymesur, gydag eithriadau a threfniadau trwyddedu y bwriedir iddyn nhw ganiatáu i weithgareddau sydd eu hangen ac y gellir eu cyfiawnhau barhau.

Y prif ganlyniad hirdymor a geisir yw fframwaith cliriach a mwy effeithiol ar gyfer diogelu lles morloi ac ysgyfarnogod yng Nghymru. Bwriad y cynnig i wneud aflonyddu ar forloi'n drosedd yw atal ymddygiad bwriadol neu ddi-hyd sy'n achosi aflonyddu lle bynnag mae morloi'n byw yng Nghymru. Bwriad y tymor ysgyfarnogod caeedig arfaethedig yw amddiffyn anifeiliaid beichiog ac anifeiliaid nyrsio a lefrod dibynnol yn ystod y prif dymor bridio, wrth barhau i ganiatáu saethu cyfreithlon y tu allan i'r tymor caeedig a chaniatáu gweithgareddau trwyddedig o dan amgylchiadau penodol.

Gall y cynigion hefyd wneud cyfraniad cadarnhaol bach at wydnwch poblogaethau bywyd gwyllt brodorol a dealltwriaeth y cyhoedd o ymddygiad cyfrifol tuag at fywyd gwyllt. Mae'r rhain yn fanteision anuniongyrchol posibl yn hytrach na'r brif sylfaen ar gyfer ymyrryd, sef lles anifeiliaid. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar gynefinoedd, ecosystemau, fflora na ffawna eraill wedi cael eu nodi, ac ni ddisgwylir i'r cynigion arwain at newidiadau i ddefnydd tir, cyflwr cynefinoedd na swyddogaethau ecosystemau ehangach.

Mae'r cynigion wedi cael eu cynllunio i osgoi effeithiau anghymesur ar gymunedau gwledig ac arfordirol, amaethyddiaeth, gweithgareddau hamdden cyfrifol a busnesau perthnasol. Disgwylir i'r effeithiau cyffredinol ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig fod yn fach iawn. Dylai twristiaeth bywyd gwyllt gyfrifol, hamdden, ymchwil wyddonol, cadwraeth, achub ac adsefydlu, a gweithgareddau rheoli tir cyfreithlon allu parhau; gallent ddod o dan un o’r eithriadau i’r troseddau newydd neu fe allent fod yn amodol i’r gofyn i gael trwydded.

Bydd gweithredu gyda chanllawiau, cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth clir, hygyrch a dwyieithog yn cefnogi dealltwriaeth a chydymffurfedd. Bwriedir i'r pwyslais fod ar atal a newid ymddygiad yn hytrach na bod yn rhy barod i erlyn. Bydd tystiolaeth o'r ymgynghoriad, adborth oddi wrth randdeiliaid, digwyddiadau a adroddwyd yn eu cylch a gweithgareddau gorfodi'n cael eu defnyddio i fireinio'r cynigion a'r asesiadau effaith ategol, ac os bernir bod deddfwriaeth sylfaenol yn briodol, byddant yn llywio gweithredu a’r asesu dilynol a yw'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer lles anifeiliaid yn cael eu cyflawni dros amser

**4. Beth yw'r effeithiau allweddol (cadarnhaol, negyddol, a chyfleoedd) ar draws pob un o'r saith nod llesiant?**

**Cymru lewyrchus**

Disgwylir i'r effeithiau economaidd cyffredinol fod yn gyfyngedig. Ni ddisgwylir i'r cynigion beri costau sylweddol i fusnesau neu aelwydydd, er efallai y bydd angen i rai sefydliadau ac unigolion ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd a gall rhai pobl/busnesau/sefydliadau gael eu heffeithio gan gostau gweinyddol cyfyngedig pan fydd angen trwydded. At ei gilydd dylai busnesau twristiaeth a hamdden bywyd gwyllt cyfrifol allu parhau â'u gweithgareddau heb lawer o newid i'w gweithrediadau, a gall safonau cliriach gefnogi twristiaeth bywyd gwyllt cyfrifol a hyder y cyhoedd yn y sector. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar gynhyrchiant amaethyddol na chynhyrchu bwyd wedi cael eu nodi.

**Cymru gydnerth**

Mae'r cynigion yn bennaf yn fesurau mewn perthynas â lles anifeiliaid yn hytrach na mentrau gwarchod rhywogaethau. Fodd bynnag, gall amddiffyn ysgyfarnogod yn ystod y tymor bridio a lleihau aflonyddu niweidiol ar forloi wneud cyfraniad cadarnhaol bach at gynnal poblogaethau bywyd gwyllt brodorol, ymddygiad bridio arferol a gwydnwch ecosystemau. Mae'r Asesiad Effaith Bioamrywiaeth yn nodi y disgwylir effeithiau niwtral neu fân effeithiau cadarnhaol, heb unrhyw effeithiau andwyol wedi cael eu nodi ar gyfer cynefinoedd, ecosystemau, fflora neu ffawna eraill.

**Cymru iachach**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol sylweddol ar iechyd corfforol neu feddyliol nac ar fynediad at wasanaethau iechyd. Gall y cynigion ddarparu manteision lles anuniongyrchol drwy gefnogi mwynhau a gwerthfawrogi bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol mewn ffordd gyfrifol. Daeth y sgrinio am yr effeithau ar iechyd i'r casgliad nad oedd angen Asesiad Effaith Iechyd llawn ar gyfer y cynigion hyn.

**Cymru sy'n fwy cyfartal**

Nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi nodi unrhyw effeithiau andwyol uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn perthynas ag unrhyw nodwedd warchodedig. Mae'r cynigion yn rheoleiddio ymddygiad tuag at fywyd gwyllt a bwriedir iddyn nhw fod yn berthnasol yn gyson ledled Cymru. Y prif ystyriaeth ynghylch cydraddoldeb yw sicrhau bod deunyddiau ymgynghori, canllawiau, gwybodaeth am eithriadau a threfniadau trwyddedu, a chyfathrebiadau ehangach yn hygyrch ac yn gynhwysol. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadolygu am dystiolaeth o unrhyw rwystrau neu effeithiau anfwriadol, gan gynnwys y rhai a allai godi drwy weithredu, trwyddedu neu orfodi.

**Cymru o gymunedau cydlynus**

Gall y cynigion wneud cyfraniad cadarnhaol at hyder y cyhoedd mewn amddiffyniadau lles bywyd gwyllt a rhyngweithio cyfrifol â bywyd gwyllt mewn cymunedau gwledig ac arfordirol. At ei gilydd disgwylir i effeithiau ar y cefn gwlad fod yn fach iawn ac yn gymesur, ac nid oes unrhyw effeithiau wedi cael eu nodi ar fynediad at wasanaethau, tai, trafnidiaeth neu seilwaith cymunedol. Mae effeithiau posibl yn canolbwyntio ar amrediad cyfyngedig o weithgareddau sy'n ymwneud â rheoli ysgyfarnogod a rhyngweithio â morloi. Bydd canllawiau clir, cyfathrebu hygyrch ac ymgysylltu â chymunedau a sefydliadau yr effeithir arnyn nhw'n bwysig i gefnogi dealltwriaeth a gweithredu.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Mae ysgyfarnogod a morloi yn rhan o dreftadaeth naturiol Cymru, a gall gwella y ffordd maen nhw'n cael eu hamddiffyn helpu'r cyhoedd i werthfawrogi a mwynhau bywyd gwyllt ac amgylcheddau gwledig ac arfordirol mewn ffordd gyfrifol. Ar y cyfan disgwylir i effaith uniongyrchol y cynigion ar y Gymraeg fod yn niwtral neu'n fach iawn. Bydd deunyddiau ymgynghori, canllawiau, gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer y cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan alluogi siaradwyr Cymraeg i ddeall y cynigion a chymryd rhan yn y prosesau ymgynghori a gweithredu mor hawdd drwy'r Gymraeg â thrwy'r Saesneg.

**Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Mae'r cynigion yn dangos ymrwymiad i safonau uchel o les anifeiliaid a rhyngweithio cyfrifol â bywyd gwyllt. Gallan nhw hefyd sicrhau bod Cymru yn cyd-

fynd yn agosach â'r egwyddorion lles anifeiliaid sylfaenol a adlewyrchir mewn amddiffyniadau sy'n gweithredu neu a gynigir mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, wrth ymateb i'r sefyllfa ddeddfwriaethol benodol yng Nghymru. Nid oes unrhyw newid sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr nac effaith andwyol ar fioamrywiaeth fyd-eang wedi cael eu nodi.

**At ei gilydd**, y fantais fwyaf arwyddocaol a ragwelir yw gwella lles anifeiliaid drwy leihau niwed y gellir ei osgoi i forloi ac ysgyfarnogod a darparu sail gliriach ar gyfer ymddygiad cyfrifol a gorfodi cymesur. Y prif effeithiau negyddol posibl sy'n ymwneud â'r drosedd newydd o ladd, anafu neu gymryd ysgyfarnog yn fwriadol neu'n ddi-hid yn ystod y tymor caeedig arfaethedig yw ymgyfarwyddo â'r gyfraith newydd, effeithiau gweinyddol trwyddedu, a chynnydd cymedrol mewn gweithgareddau gorfodi. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, cefnogi twristiaeth a hamdden bywyd gwyllt cyfrifol, gwella eglurder o fewn y fframwaith deddfwriaethol ac atgyfnerthu cydweithredu rhwng y llywodraeth, cyrff gorfodi, rheolwyr tir a sefydliadau lles anifeiliaid a chadwraeth

5. **Pa dystiolaeth, gan gynnwys adroddiadau o dan y Ddeddf, sydd wedi llywio'r polisi, a sut bydd hyn yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol?**

Mae'r cynigion wedi cael eu llywio gan dystiolaeth wyddonol, ddeddfwriaethol a gweithredol a thystiolaeth gan randdeiliaid. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud ag aflonyddu ar forloi a'r canlyniadau posibl i'w lles; tystiolaeth ynghylch bioleg bridio ysgyfarnogod a'r risgiau i'w lles sy'n gysylltiedig â saethu anifeiliaid beichiog neu anifeiliaid sy'n nyrsio; deddfwriaeth bywyd gwyllt bresennol yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig; gwybodaeth gan sefydliadau lles anifeiliaid a chadwraeth; ac ymgysylltu â chyrff gorfodi a rhanddeiliaid sydd â diddordebau mewn rheoli bywyd gwyllt, a gweithgareddau gwledig ac arfordirol.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos y gall aflonyddu achosi morloi i newid eu hymddygiad, gadael safleoedd ar y tir, treulio egni yn ddiangen a phrofi straen neu anafiadau. Mae pryderon penodol ynghylch lles yn codi pan fydd aflonyddu'n arwain at wahanu mamau a morloi bach dibynnol neu'n cyfrannu at eu gadael cyn yr amser cywir. Mewn perthynas ag ysgyfarnogod, mae'r dystiolaeth yn dangos y gall ysgyfarnogod benyw fod yn feichiog neu'n bwydo rhai ifanc dibynnol yn ystod y tymor caeedig arfaethedig, gan greu risg y gall lladd anifeiliaid bridio adael lefrod dibynnol heb ofal mam. Mae'r cynigion wedi cael eu seilio ar y pryderon hyn ynghylch lles anifeiliaid yn hytrach nag ar dystiolaeth o'r angen i warchod rhywogaethau.

Mae tystiolaeth genedlaethol berthnasol ac ystyriaethau statudol hefyd wedi llywio datblygu'r cynigion. Mae hyn yn cynnwys ystyried rhestrau adran 7 o rywogaethau a chynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, adran 6 Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Mae'r ystyriaethau hyn wedi helpu i asesu'r berthynas bosibl rhwng y cynigion, bioamrywiaeth, gwydnwch ecosystemau a gweithgareddau a gynhelir ar dir amaethyddol.

Mae'r dystiolaeth wedi cael ei hystyried drwy'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r asesiadau unigol sy'n cynnwys cydraddoldeb, y Gymraeg, bioamrywiaeth, prawfesur gwledig a Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae sgrinio hefyd wedi cael eu

cynnal ar gyfer hawliau plant, iechyd, diogelu data ac effeithiau carbon. Gyda'i gilydd, mae'r asesiadau hyn yn dangos y disgwylir i'r effeithiau ehangach fod yn effeithiau niwtral neu'n effeithiau cadarnaol bach neu fach iawn, gydag effeithiau posibl yn canolbwyntio ar amrediad cyfyngedig o weithgareddau sy'n cynnwys rhyngweithio â morloi, saethu ysgyfarnog, rheoli tir, trwyddedu, ymgyfarwyddo a gorfodi.

Mae rhai bylchau ac ansicrwydd pwysig ynghylch tystiolaeth yn parhau i fodoli. Mae'r rhain yn cynnwys lefel a natur yr aflonyddu ar forloi yng Nghymru, lefel y saethu ysgyfarnogod yn ystod y tymor caeedig arfaethedig, y galw tebygol am drwyddedau, yr effeithiau ymarferol ar unigolion a sefydliadau yr effeithir arnyn nhw, a'r galw am orfodi yn y dyfodol. Felly, mae'r ymgynghoriad yn ceisio tystiolaeth i brofi'r rhagdybiaethau a wnaed, nodi effeithiau neu ganlyniadau anfwriadol nad ydyn nhw wedi cael eu nodi hyd yn hyn  a gwella dealltwriaeth o gostau, manteision a'r ffordd y bydd y cynigion yn cael eu gweithredu yn ymarferol.

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad a gwaith ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid yn cael eu defnyddio i fireinio'r cynigion, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Asesiad Effaith Integredig. Bydd y dystiolaeth yn helpu Llywodraeth Cymru i ystyried a ddylid bwrw ymlaen â'r cynigion, ac os felly sut. Os bydd Bil yn cael ei ddatblygu, bydd yr asesiadau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu'r dyluniad polisi terfynol, y trefniadau gweithredu y cytunwyd arnyn nhw ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol sy'n dod i law drwy ymgynghori, ymgysylltu a'r broses datblygu deddfwriaethol.

Os bydd y ddeddfwriaeth yn mynd yn ei blaen, bydd penderfyniadau parhaus ac adolygu ôl-weithredol yn cael eu llywio gan ddigwyddiadau a adroddir yn eu cylch, camau gorfodi ac adborth oddi wrth randdeiliaid, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg am ganlyniadau lles anifeiliaid ac effeithiau anfwridol. Bydd hyn yn helpu i asesu a yw'r mesurau'n gweithredu mewn modd cymesur, gan gefnogi newid ymddygiad a chyflawni eu hamcanion lles anifeiliaid arfaethedig.

## Crynodeb o'r Asesiadau Effaith ar gyfer y cynnig hwn

### Cyhoeddi yn orfodol (os oes angen yr Asesiad o'r Effaith)

#### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhawyd: **Do**

Cwblhawyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol uniongyrchol neu anuniongyrchol wedi cael eu nodi mewn perthynas ag unrhyw nodwedd warchodedig. Y prif ystyriaeth ynghylch gweithredu yw sicrhau bod deunyddiau ymgynghori, canllawiau, gwybodaeth am eithriadau a threfniadau trwyddedu, a chyfathrebiadau ehangach yn hygyrch ac yn gynhwysol. Bydd yr asesiad yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac unrhyw dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud â thrwyddedu a gorfodi.

#### Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant

Cwblhawyd: **Cwblhawyd y sgrinio; nid ystyrir bod angen asesiad llawn ar hyn o bryd**

Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol ar fabanod, plant na phobl ifanc wedi cael eu nodi. Disgwylir i unrhyw effeithiau fod yn gyfyngedig, yn anuniongyrchol ac yn gadarnhaol, gan gynnwys cyfleoedd i hyrwyddo parch at fywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol. Byddwn yn ceisio rhagor o dystiolaeth drwy ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, a bydd yr asesiad yn cael ei adolygu i benderfynu a oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer unrhyw Fil sy'n mynd yn ei flaen.

#### Asesiad o’r Effaith ar Iechyd

Cwblhawyd: **Cwblhawyd y sgrinio; nid oes angen asesiad llawn**

Cyhoeddwyd: **Ddim ei angen ar gyfer y cynnig hwn**

Aseswyd nad yw'r cynnig yn benderfyniad strategol ynghylch y ffordd mae Gweinidogion Cymru yn arfer eu swyddogaethau. Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol sylweddol ar iechyd corfforol neu feddyliol nac ar fynediad at wasanaethau iechyd.

### Asesiadau Effaith Eraill

#### Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cwblhawyd: **Do**

Cwblhawyd Asesiad llawn o’r Effaith ar y Gymraeg. Ar y cyfan disgwylir i effaith uniongyrchol y cynigion ar y Gymraeg fod yn niwtral neu'n fach iawn. Mae'r prif ystyriaethau yn ymwneud â gweithredu, gan gynnwys sicrhau bod deunyddiau ymgynghori, canllawiau, gwybodaeth esboniadol a chyfathrebiadau ar gyfer y cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a bod pobl yn gallu cymryd rhan yr un mor hawdd drwy'r Gymraeg â Saesneg.

#### Gwaith Sgrinio ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

Cwblhawyd: **Do; nid oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Ddiogelu Data.**

Daeth yr Uned Hawliau Gwybodaeth i'r casgliad nad yw'r cynnig yn bodloni'r meini prawf sy'n gwneud Asesiad llawn o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn ofynnol. Bydd yr ymgynghoriad yn dilyn proses ymgynghori ffurfiol Llywodraeth Cymru, y mae cymffurfio â deddfwriaeth

diogelu data yn rhan annatod ohoni. Ni chynigir unrhyw brosesu data personol newydd na newid yn sylweddol y ffordd y prosesir data.

**Asesiad o’r Effaith ar Fioamrywiaeth**

Cwblhawyd: **Do**

Cwblhawyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Fioamrywiaeth. Mae'r cynigion yn bennaf yn fesurau mewn perthynas â lles anifeiliaid yn hytrach na mentrau gwarchod rhywogaethau. Fodd bynnag, disgwylir iddyn nhw gael effaith niwtral neu effaith gadarnhaol fach ar fioamrywiaeth drwy amddiffyn rhywogaethau bywyd gwyllt brodorol yn well. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar gynefinoedd, ecosystemau, fflora na ffawna eraill wedi cael eu nodi

**Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig**

Cwblhawyd: **Do**

Mae Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig llawn wedi cael ei gwblhau. Disgwylir i'r effeithiau cyffredinol ar bobl, busnesau a chymunedau yn y cefn gwlad fod yn fach iawn ac yn gymesur, ac iddyn nhw ganolbwyntio ar amrediad cyfyngedig o weithgareddau sy'n ymwneud â rheoli ysgyfarnogod a rhyngweithio â morloi. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar fywoliaethau gwledig, cynhyrchiant amaethyddol, rheoli tir, mynediad at wasanaethau neu seilwaith cymunedol wedi cael eu nodi.

**Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy**

Cwblhawyd: **Do**

Cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy llawn. Mae'r prif berthnasedd yn deillio o'r tymor ysgyfarnogod caeedig arfaethedig a'i ryngweithio posibl â gweithgareddau a gynhelir ar dir amaethyddol. Disgwylir i effeithiau cyffredinol yn erbyn amcanion Rheoli Tir yn gynaliadwy fod yn effeithiau niwtral neu effeithiau mân cadarnhaol, heb effeithio'n sylweddol ar gynhyrchu amaethyddol cynaliadwy.

**Asesiad Effaith Carbon**

Cwblhawyd: **Do: cwblhawyd sgrinio ac nid oes angen asesiad llawn**

Mae swyddogion wedi ystyried effaith carbon y cynigion. Nid yw allyriadau wedi cael eu mesur oherwydd disgwylir iddyn nhw fod o dan y trothwy ar gyfer dadansoddiad meintiol. Mae gan swyddogion hyder uchel yn yr asesiad hwn.

**Asesiad Effaith Dyletswydd Ansawdd (Iechyd)**

Cwblhawyd: **Ddim ei angen ar gyfer y cynnig hwn**

Nid yw'r cynigion yn ymwneud ag arfer swyddogaethau iechyd, darparu gwasanaethau iechyd nac ansawdd gwasanaethau iechyd. Felly, nid oes angen Asesiad Dyletswydd Ansawdd.

**Asesiad Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**

Cwblhawyd: **Ddim ei angen ar gyfer y cynnig hwn**

Nid yw'r cynigion yn cael eu hystyried yn benderfyniad strategol at ddibenion y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, ac ni ddisgwylir iddyn nhw gael effaith sylweddol ar anghydraddoldebau o ran canlyniadau wedi'u hachosi gan anfantais economaidd-gymdeithasol. Serch hynny, mae'r effeithiau posibl ar unigolion, busnesau a chymunedau yn y cefn gwlad wedi cael eu hystyried drwy'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yr Asesiad Prawf Gwledig, Asesiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'r Asesiad Effaith Rheoleiddio.

**Asesiad Amgylcheddol Strategol**

Cwblhawyd**: Cwblhawyd y sgrinio; nid oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol llawn ar hyn o bryd**

Mae'r cynnig wedi cael eu ystyried yn erbyn Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Ni fyddai'r Bil arfaethedig yn dyrannu tir, yn awdurdodi datblygu, yn sefydlu fframwaith ar gyfer penderfyniadau caniatâd datblygu nac yn darparu ar gyfer rhaglenni gwaith. Nid oes unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol o'r math sydd fel arfer yn cael eu cysylltu â chynlluniau a rhaglenni sydd angen Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi cael eu nodi. Bydd y casgliad hwn yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad a datblygiadau polisi pellach.

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Cwblhawyd: **Cwblhawyd y sgrinio; nid oes angen asesiad priodol ar hyn o bryd**

Mae'r cynnig wedi cael ei ystyried yn erbyn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Nid oes unrhyw lwybr wedi cael ei nodi ar hyn o bryd lle y gallai'r darpariaethau arfaethedig eu hunain arwain at effeithiau sylweddol tebygol ar nodweddion cymwys Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig neu safle Ramsar. Byddai unrhyw geisiadau am drwydded yn y dyfodol yn cael eu hystyried ar wahân a bydden nhw'n parhau i fod yn ddarostyngedig, pan fo hynny'n berthnasol, i ofynion y Rheoliadau Cynefinoedd. Bydd y casgliad hwn yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad a datblygiadau polisi pellach.

**Asesiad ychwanegol: Asesiad Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder**

Mae Asesiad Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder wedi cael ei baratoi ar gyfer y cynigion. Mae'r asesiad yn ystyried yr effeithiau posibl sy'n deillio o greu troseddau bywyd gwyllt arfaethedig sy'n ymwneud ag aflonyddu ar forloi a chyflwyno tymor caeedig ar gyfer ysgyfarnogod. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i'w ystyried, a bydd yr asesiad o'r effeithiau ar y system gyfiawnder yn cael ei fireinio yng ngoleuni'r ystyried hwnnw.

Felly nid yw'r fersiwn derfynol o'r Asesiad Nodi'r Effaith ar Gyfiawnder wedi cael ei llunio eto. Bydd gwybodaeth y cytunwyd arni am yr effeithiau disgwyliedig ar y system gyfiawnder yn cael ei hymgorffori yn yr Asesiad Effaith Integredig a'r dogfennau esboniadol ac ategol berthnasol ar gyfer unrhyw Fil sy'n mynd yn ei flaen.

**Datganiad**

Rwy'n fodlon bod effaith y camau gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: Naomi Matthiessen

Adran: Yr Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth

## Contents

1. Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ........ 13
2. Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ........ 22
4. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ........ 25
5. Asesiad o’r Effaith ar Fioamrywiaeth ........ 31
6. Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig ........ 41
7. Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy ........ 46
8. Sgrinio ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol ........ 50
9. Sgrinio ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ........ 51

# 1. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

**Gwneud Penderfyniadau Gwell a Thecach**

## *CYNNIG*

1. **Teitl y cynnig** Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru)

2. **Beth mae eich cynnig yn bwriadu ei gyflawni?**

   Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) fyddai'r cam cyntaf mewn rhaglen ehangach a fydd yn diwygio cyfraith bywyd gwyllt yng Nghymru. Bydd y Bil arfaethedig yn cynnwys dau fesur sydd â'r bwriad o wella lles anifeiliaid: creu trosedd newydd o aflonyddu ar forloi yn fwriadol neu'n ddi-hid a chyflwyno tymor caeedig statudol pan fyddai'n anghyfreithlon lladd, anafu neu gymryd ysgyfarnog yn fwriadol neu'n ddi-hid. Mae'r cynigion yn ceisio lleihau dioddefaint anifeiliaid y mae modd ei osgoi, mynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn y fframwaith deddfwriaethol a chefnogi rhyngweithio cyfrifol â bywyd gwyllt trwy amddiffyniadau cyfreithiol cymesur a gorfodadwy.

3. **Pryd ddechreuodd y gwaith ar y cynnig?**

   26 Gorffennaf

4. **Pa sefydliadau, grwpiau neu gymunedau sy'n debygol o gael eu heffeithio?**

   - Aelodau o'r cyhoedd sy'n ymgysylltu â bywyd gwyllt.
   - Twristiaid ac ymwelwyr â'r arfordir.
   - Defnyddwyr dŵr hamdden.
   - Ffotograffwyr bywyd gwyllt.
   - Gweithredwyr twristiaeth bywyd gwyllt.
   - Gweithredwyr llongau.
   - Gweithredwyr pysgota masnachol
   - Sefydliadau cadwraeth morol.
   - Sefydliadau achub ac adsefydlu bywyd gwyllt morol.
   - Cyrff ymchwilio a chyrff addysgol.
   - Perchnogion tir a rheolwyr tir.
   - Ffermwyr a busnesau amaethyddol.
   - Ystadau helwriaeth.
   - Sefydliadau saethu a chyrff cynrychiadol.
   - Cyfoeth Naturiol Cymru.
   - Lluoedd yr heddlu ac awdurdodau erlyn.
   - Sefydliadau lles anifeiliaid a chadwraeth

## *EFFAITH AR BOBL MEWN GRWPIAU GWARCHODEDIG A'R GALLU I YMGYSYLLTU Â NHW*

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros beidio ag asesu'r effaith ar gydraddoldeb.

## *OEDRAN*

1. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw ymgysylltu.**

   Nid yw'r Bil arfaethedig yn targedu unrhyw grŵp oedran ac mae'r troseddau arfaethedig yn berthnasol yn gyfartal i bob oed. Nid yw'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod datblygu polisi, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder, wedi nodi unrhyw effeithiau penodol i oedran. Mae'r cynigion yn rheoleiddio ymddygiad tuag at forloi ac ysgyfarnogod yn hytrach na mynediad at wasanaethau, cyflogaeth, addysg, tai neu fudd-daliadau.

2. **A oes unrhyw dystiolaeth sy'n ansicr neu nad yw ar gael?**

   Mae gwybodaeth ddemograffig gyfyngedig ynglŷn ag oedran pobl sydd yn aflonyddu ar forloi, lladd, anafu neu gymryd ysgyfarnogod neu'n dod yn destun camau gorfodi posibl. Gallai ymatebion i'r ymgynghoriad ddarparu tystiolaeth ychwanegol.

3. **Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?**

   Mae'r gwaith ymgysylltu wedi cynnwys sefydliadau cadwraeth, cyrff lles anifeiliaid, Cyfoeth Naturiol Cymru, partneriaid gorfodi, swyddogion troseddau bywyd gwyllt a chynrychiolwyr buddiannau hamdden a rheoli tir. Roedd y gwaith ymgysylltu yn canolbwyntio ar les anifeiliaid, gweithredu a gorfodi ac nid oedd yn nodi pryderon penodol i oedran.

4. **Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**

   Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai pobl o wahanol oedrannau yn profi effeithiau sylweddol wahanol yn sgil y cynigion.

5. **Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?**

   Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol. Gallai plant a phobl ifanc brofi budd cadarnhaol anuniongyrchol trwy wella'r ymwybyddiaeth o ymddygiad cyfrifol tuag at fywyd gwyllt a diogelu lles anifeiliaid cryfach. Disgwylir i unrhyw fuddion gael eu profi'n eang ar draws cymdeithas yn hytrach na chan grŵp oedran penodol.

6. **Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?**

   Bydd deunyddiau ymgynghori, canllawiau a chyfathrebu yn hygyrch ac ar gael trwy ystod o sianeli sy'n briodol i wahanol grwpiau oedran.

## *ANABLEDD*

7. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw ymgysylltu.**

   Nid oes disgwyl i'r Bil arfaethedig effeithio'n wahanol ar bobl ag anableddau nag unrhyw un arall. Mae'r cynigion yn creu troseddau bywyd gwyllt ac nid ydynt yn effeithio ar fynediad at wasanaethau, cyflogaeth, tai, gofal iechyd na budd-daliadau. Mae'r brif ystyriaeth cydraddoldeb yn ymwneud â sicrhau bod gwybodaeth, canllawiau, deunyddiau ymgynghori a chyfathrebu yn hygyrch.

**8. A oes unrhyw dystiolaeth sy'n ansicr neu nad yw ar gael?**

Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol wedi'i nodi sy'n awgrymu bod pobl anabl yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan y troseddau. Fodd bynnag, gall ymatebion i'r ymgynghoriad dynnu sylw at ystyriaethau hygyrchedd a fydd yn gofyn am gamau pellach.

**9. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?**

Mae ymgysylltu wedi canolbwyntio'n bennaf ar randdeiliaid bywyd gwyllt, gorfodi, cadwraeth a lles anifeiliaid. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn rhoi cyfle pellach i nodi unrhyw rwystrau hygyrchedd neu effeithiau anfwriadol.

**10. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y model cymdeithasol o anabledd a'r angen i weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu fod yn hygyrch ac yn gynhwysol.

**11. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol. Gallai effeithiau anuniongyrchol godi os nad yw cyfathrebu, canllawiau, dogfennau ymgynghori neu wybodaeth sy'n ymwneud â throseddau a threfniadau trwyddedu yn hygyrch.

**12. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?**

Bydd deunyddiau ymgynghori a chanllawiau ar gael mewn fformatau hygyrch ar gais. Bydd gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael eu cynllunio i fod yn gynhwysol, a bydd addasiadau rhesymol yn parhau i fod ar gael lle bo angen.

## *HIL*

**13. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw ymgysylltu.**

Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio ar bobl yn wahanol oherwydd hil, ethnigrwydd, cenedligrwydd neu aelodaeth o gymuned ethnig benodol. Mae'r ddeddfwriaeth yn rheoleiddio ymddygiad yn hytrach na grwpiau penodol o bobl.

**14. A oes unrhyw dystiolaeth sy'n ansicr neu nad yw ar gael?**

Mae gwybodaeth ddemograffig gyfyngedig ynglŷn â phobl a allai ddod yn destun camau gorfodi.

15. **Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?**

Mae ymgysylltu wedi canolbwyntio ar randdeiliaid polisi, awdurdodau gorfodi a buddiannau bywyd gwyllt. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i nodi unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael ar hyn o bryd.

**16. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**

Nid oes angen unrhyw newidiadau i'r cynigion mewn perthynas â hil.

**17. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol uniongyrchol neu anuniongyrchol. Disgwylir i unrhyw fuddion sy'n gysylltiedig â gwella lles anifeiliaid a hyder y cyhoedd mewn deddfwriaeth bywyd gwyllt gael eu profi yn eang ar draws cymdeithas.

**18. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?**

Bydd gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi yn ddwyieithog, a bydd fformatau amgen ar gael ar gais. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu monitro am dystiolaeth o unrhyw effeithiau anfwriadol.

## *CREFYDD, CRED NEU DDIFFYG CRED*

**19. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw ymgysylltu.**

Nid yw'r dystiolaeth a gasglwyd trwy ddatblygu polisi, ymgysylltu â rhanddeiliaid, datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac ystyried effeithiau cyfiawnder wedi nodi unrhyw gysylltiad rhwng y cynigion a chrefydd, cred grefyddol, cred athronyddol neu ddiffyg cred. Mae'r Bil arfaethedig yn ymwneud â diogelu lles anifeiliaid, yn benodol morloi ac ysgyfarnogod, ac yn rheoleiddio ymddygiad tuag at fywyd gwyllt yn hytrach nag arferion neu gred grefyddol

20. **A oes unrhyw dystiolaeth sy'n ansicr neu nad yw ar gael?**

Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol wedi'i nodi ynghylch credoau crefyddol unigolion a allai gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu heffeithio gan y ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw agwedd ar y cynigion i'w gweld yn gallu creu effeithiau gwahaniaethol yn seiliedig ar grefydd, cred neu ddiffyg cred.

**21. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?**

Ymgysylltwyd â sefydliadau lles anifeiliaid, cyrff cadwraeth, partneriaid gorfodi, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion. Ni nodwyd unrhyw bryderon yn ymwneud â chrefydd, cred neu ddiffyg cred wrth ddatblygu polisi. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle pellach i unrhyw faterion perthnasol gael eu lleisio.

**22. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**

Gan nad oes unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n ymwneud â chrefydd, cred neu ddiffyg cred wedi'u nodi, nid oes angen unrhyw newidiadau i'r cynigion polisi ar gyfer y nodwedd warchodedig hon.

**23. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol penodol. Disgwylir i'r cynigion effeithio ar bob unigolyn yn gyfartal waeth beth fo'u crefydd, cred neu ddiffyg cred. Disgwylir i unrhyw fuddion sy'n gysylltiedig â gwella lles anifeiliaid a hyder y cyhoedd mewn deddfwriaeth bywyd gwyllt gael eu profi ar draws cymdeithas gyfan.

**24. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?**

Bydd deunyddiau ymgynghori, canllawiau a chyfathrebu yn parhau i fod yn hygyrch ac yn gynhwysol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn monitro ar gyfer unrhyw effeithiau anfwriadol a allai ddod i'r amlwg.

### *RHYW*

**25. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw ymgysylltu.**

Nid yw tystiolaeth o ddatblygu polisi, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith asesu effaith wedi nodi unrhyw arwydd y byddai'r cynigion yn effeithio ar bobl yn wahanol oherwydd eu rhyw. Mae'r troseddau arfaethedig a'r amddiffyniadau cysylltiedig yn berthnasol yn gyfartal i bob unigolyn.

**26. A oes unrhyw dystiolaeth sy'n ansicr neu nad yw ar gael?**

Mae gwybodaeth gyfyngedig am broffil rhyw unigolion a allai ddod yn destun camau gorfodi. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi sy'n awgrymu effeithiau gwahaniaethol yn ôl rhyw.

**27. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?**

Mae'r ymgysylltu wedi cynnwys cyrff gorfodi, sefydliadau cadwraeth, sefydliadau lles anifeiliaid, buddiannau rheoli tir a rhanddeiliaid sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion. Ni nodwyd unrhyw bryderon penodol i ryw.

**28. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**

Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi dod i'r amlwg sy'n awgrymu bod angen addasiadau neu liniaru polisi penodol i ryw.

**29. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol penodol. Mae'r cynigion yn rheoleiddio gweithgareddau penodol sy'n ymwneud â bywyd gwyllt ac nid oes disgwyl iddyn nhw effeithio ar unigolion yn wahanol oherwydd eu bod yn ddynion neu'n fenywod. Disgwylir i unrhyw fanteision ehangach gael eu rhannu ar draws cymdeithas.

**30. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?**

Bydd y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cysylltiedig yn berthnasol yn gyfartal i bob unigolyn. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw dystiolaeth o effeithiau anfwriadol.

### *AILBENNU RHYWEDD*

**31. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw ymgysylltu.**

Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi trwy ddatblygu polisi, ymgysylltu â rhanddeiliaid neu waith asesu effaith i awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio ar bobl

drawsryweddol neu bobl sy’n cael ailbennu rhywedd yn wahanol i eraill. Mae’r cynigion yn ymwneud â mesurau diogelu bywyd gwyllt a throseddau lles anifeiliaid.

**32. A oes unrhyw dystiolaeth sy’n ansicr neu nad yw ar gael?**

Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol wedi’i nodi mewn perthynas ag ailbennu rhywedd a’r gweithgareddau sy’n cael eu heffeithio gan y Bil arfaethedig. Fodd bynnag, nid oes llwybr amlwg y byddai’r cynigion yn creu effeithiau gwahaniaethol.

**33. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?**

Mae ymgysylltu wedi canolbwyntio ar randdeiliaid sydd ag arbenigedd mewn rheoli bywyd gwyllt, cadwraeth, lles anifeiliaid, gorfodi a rheoli tir. Ni nodwyd unrhyw faterion sy’n ymwneud ag ailbennu rhywedd trwy ymgysylltu.

**34. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**

Nid oes angen unrhyw ddiwygiadau i’r cynigion o ganlyniad i dystiolaeth sy’n ymwneud ag ailbennu rhywedd.

**35. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol penodol. Disgwylir i’r cynigion effeithio ar bobl yn gyfartal waeth beth fo’u hunaniaeth rhywedd neu statws ailbennu rhywedd.

**36. Pa gamau fyddwch chi’n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?**

Bydd gweithgareddau ymgynghori a chyfathrebu yn parhau i fod yn gynhwysol ac yn hygyrch. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried adborth a ddaw yn sgil ymgynghori ac unrhyw dystiolaeth sy’n dod i’r amlwg.

## *CYFEIRIADEDD RHYWIOL*

**37. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw ymgysylltu.**

Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi’i nodi y bydd pobl yn profi gwahanol effeithiau oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. Mae’r cynigion yn rheoleiddio ymddygiad sy’n ymwneud â bywyd gwyllt ac nid ydynt yn effeithio ar wasanaethau, hawliau, cyfleoedd na meini prawf cymhwysedd sy’n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol.

38. **A oes unrhyw dystiolaeth sy’n ansicr neu nad yw ar gael?**

Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol ar gael ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol a chyfranogiad mewn gweithgareddau sy’n cael eu heffeithio gan y Bil arfaethedig. Fodd bynnag, nid oes unrhyw berthynas wedi’i nodi rhwng cyfeiriadedd rhywiol a gweithrediad y cynigion.

**39. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?**

Mae ymgysylltu wedi canolbwyntio ar randdeiliaid polisi a gweithredol sy’n cael eu heffeithio gan y cynigion. Ni nodwyd unrhyw bryderon ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol.

**40. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**

Nid oes angen unrhyw newidiadau i'r cynigion polisi mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol.

**41. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol penodol. Disgwylir i'r cynigion effeithio ar bob unigolyn yn gyfartal waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol.

**42. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?**

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod deunyddiau ymgynghori a chyfathrebu yn parhau i fod yn gynhwysol a bydd yr asesiad yn parhau i gael ei adolygu wrth i ragor o dystiolaeth ddod i'r amlwg.

## *BEICHIOGRWYDD A MAMOLAETH*

**43. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw ymgysylltu.**

Nid yw'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod datblygu polisi wedi nodi unrhyw gysylltiad rhwng y cynigion a beichiogrwydd neu famolaeth. Nid yw'r Bil yn effeithio ar hawliau cyflogaeth, hawliau mamolaeth, darpariaeth gofal iechyd na hawl i wasanaethau cyhoeddus.

**44. A oes unrhyw dystiolaeth sy'n ansicr neu nad yw ar gael?**

Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi sy'n awgrymu y byddai pobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth yn profi effeithiau gwahanol i'r cynigion.

**45. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?**

Mae ymgysylltu wedi canolbwyntio ar fywyd gwyllt, gorfodi a materion lles anifeiliaid. Nid oes unrhyw bryderon ynglŷn â beichiogrwydd a mamolaeth wedi'u nodi yn ystod gweithgareddau ymgysylltu.

**46. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**

Nid yw'r dystiolaeth a adolygwyd wedi nodi bod angen addasiadau polisi mewn perthynas â beichiogrwydd a mamolaeth.

**47. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol penodol. Disgwylir i'r cynigion effeithio ar unigolion yn gyfartal waeth beth fo'u beichiogrwydd neu statws mamolaeth.

**48. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?**

Bydd deunyddiau ymgynghori a chyfleoedd i ymgysylltu yn hygyrch i bob unigolyn, gan gynnwys y rhai sy'n feichiog neu sydd â chyfrifoldebau gofalu.

## *PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL*

**49. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Mae angen cynnwys canfyddiadau unrhyw ymgysylltu.**

Nid yw'r dystiolaeth a gasglwyd trwy ddatblygu polisi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi nodi unrhyw gysylltiad rhwng y cynigion a statws priodas neu bartneriaeth sifil. Mae'r cynigion yn ymwneud â throseddau lles bywyd gwyllt ac nid ydynt yn effeithio ar statws cyfreithiol, trefniadau teuluol, mynediad at wasanaethau neu gyflogaeth.

**50. A oes unrhyw dystiolaeth sy'n ansicr neu heb fod ar gael?**

Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi sy'n awgrymu y byddai pobl sy'n briod neu mewn partneriaethau sifil yn profi effeithiau gwahanol i'r cynigion.

**51. Gyda phwy ydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?**

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion polisi, gan gynnwys buddiannau cadwraeth, gorfodi a rheoli tir. Nid oes unrhyw bryderon ynglŷn â phriodas neu bartneriaeth sifil wedi'u lleisio.

**52. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**

Nid oes angen unrhyw newidiadau i'r cynigion polisi mewn perthynas â phriodas neu bartneriaeth sifil.

**53. Beth fydd effeithiau tebygol y cynnig?** (

Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol penodol. Disgwylir i'r cynigion effeithio ar bob unigolyn yn gyfartal waeth beth fo'u statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

**54. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu i liniaru effeithiau negyddol?**

Nid oes angen mesurau lliniaru penodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro ymatebion i'r ymgynghoriad ac adborth rhanddeiliaid am unrhyw dystiolaeth o effeithiau anfwriadol.

## *CYHOEDDI A MONITRO*

**1. Sut byddwch chi'n monitro a gwerthuso cynnydd ar y materion cydraddoldeb a nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb?**

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn y cam ymgynghori yw hwn, a bydd yn cael ei adolygu wrth i ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu derbyn. Rhoddir sylw arbennig i unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu effeithiau ar grwpiau gwarchodedig, rhwystrau i gymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori, hygyrchedd cyfathrebu a chanllawiau, ac unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n deillio o drefniadau gorfodi neu drwyddedu.
Os bernir y byddai deddfwriaeth sylfaenol yn briodol, ar ôl ei rhoi ar waith, bydd ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu monitro trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, adborth gan bartneriaid gorfodi, ymatebion i'r ymgynghoriad, gohebiaeth gyhoeddus ac unrhyw weithgaredd adolygu ar ôl gweithredu. Os bydd tystiolaeth yn dod i'r amlwg o effeithiau

anfwriadol ar grwpiau gwarchodedig, bydd mesurau lliniaru priodol yn cael eu hystyried.

## *AWDURDODIAD*

**Datganiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr/Uwch Swyddog Cyfrifol:**

Rwy'n fodlon bod effaith y cynnig wedi'i asesu a'i gofnodi'n briodol yn unol â'r canllawiau, a bod y gofyniad am gyhoeddi wedi'i ystyried yn briodol.

**Llofnod:**  Naomi Matthiessen

**Adran:** Tirweddau, Natur a Choedwigaeth, Is-adran Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol

**Dyddiad:** 14/08/2026

## 2. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

### 1. Amcanion y polisi

- Byddai'r Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) yn ffurfio cam cyntaf rhaglen ehangach o ddiwygio cyfraith bywyd gwyllt yng Nghymru. Mae'r Bil arfaethedig yn cynnwys dau fesur y bwriedir iddynt wella lles anifeiliaid, sef creu trosedd newydd o aflonyddu ar forloi yn fwriadol neu'n ddi-hid a chyflwyno tymor caeedig statudol pan fyddai'n anghyfreithlon lladd, anafu neu gymryd ysgyfarnog yn fwriadol neu'n ddi-hid. ae'r cynigion yn ceisio lleihau dioddefaint anifeiliaid y mae modd ei osgoi; mynd i'r afael â bylchau a nodir yn y fframwaith deddfwriaethol a chefnogi rhyngweithio cyfrifol â bywyd gwyllt drwy amddiffyniadau cyfreithiol cymesur a gorfodadwy.

### 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- Ni fydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar fabanod, plant a/neu bobl ifanc. Nid yw'r dystiolaeth a gasglwyd wrth ddatblygu polisïau, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder, wedi canfod unrhyw effeithiau penodol ar fabanod, plant a/neu bobl ifanc. Mae'r cynigion yn rheoleiddio ymddygiad tuag at forloi ac ysgyfarnogod yn hytrach na mynediad at wasanaethau, cyflogaeth, addysg, tai neu fudd-daliadau.

- Bydd gwaith ymgysylltu uniongyrchol a gynlluniwyd â rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys trafodaethau am yr effaith debygol ar grwpiau demograffig gwahanol, gan gynnwys babanod, plant a/neu bobl ifanc. Yn ystod y gwaith ymgysylltu hwn, bydd tystiolaeth bellach yn cael ei cheisio i lywio'r penderfyniad ynghylch a oes angen ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a/neu bobl ifanc.

### 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

- Mae gwybodaeth ddemograffig gyfyngedig ar gael am y bobl a allai fod yn aflonyddu ar forloi, lladd, anafu neu gymryd ysgyfarnogod neu yn destun camau gorfodi; fodd bynnag, mae rhagor o wybodaeth yn cael ei cheisio yn ystod y broses ymgynghori.

- Mewn perthynas ag erthyglau CCUHP:

**Erthygl 12 (Parch at farn y plentyn)** Mae'r Papur Gwyn yn agored i'r cyhoedd, ac mae gan blant a phobl ifanc gyfle i fynegi barn ar faterion yn ymwneud â lles bywyd gwyllt. Bydd gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid ac arbenigwyr yn tynnu sylw at unrhyw effeithiau a ragwelir, a phan gynhelir gwaith ymgysylltu uniongyrchol priodol â phlant a phobl ifanc.

**Erthygl 29(1)(e) (Parch at yr amgylchedd naturiol)** Gall y mesurau arfaethedig gefnogi'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn Erthygl 29 yn anuniongyrchol drwy atgyfnerthu disgwyliadau ynghylch trin bywyd gwyllt yn gyfrifol a pharch at yr amgylchedd naturiol.

**Erthygl 31 (Gweithgareddau hamdden, chwarae a diwylliannol)** Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth arfaethedig effeithio ar allu plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, diwylliannol neu awyr agored. Byddai unrhyw effaith yn anuniongyrchol ac yn gadarnhaol, a hynny drwy ddiogelu bywyd gwyllt y bydd plant o bosibl yn cael profiad ohono fel rhan o weithgarwch hamdden, twristiaeth neu ddysgu yn yr awyr agored.

- Ar ôl ystyried erthyglau CCUHP, mae unrhyw effeithiau yn debygol o fod yn anuniongyrchol ac yn gadarnhaol, gan gydnabod cyfleoedd i hyrwyddo parch at fywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol. Yn dilyn y Papur Gwyn a gwaith ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid allweddol, bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei ailasesu a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a oes angen Asesiad llawn o’r Effaith ar Hawliau Plant i gefnogi hynt y bil arfaethedig.

## 4. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

- Bydd gwaith ymgysylltu uniongyrchol a gynlluniwyd â rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys trafodaethau am yr effaith debygol ar grwpiau demograffig gwahanol. Os rhagwelir y bydd unrhyw effeithiau, bydd gwaith ymgysylltu priodol â phlant a phobl ifanc yn cael ei wneud.

## 5. Monitro ac Adolygu

- Fel yr amlinellir uchod, bydd rhagor o wybodaeth am unrhyw effeithiau ar fabanod, plant a/neu bobl ifanc yn cael ei cheisio yn ystod y broses ymgynghori a thrwy ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid. Bydd y safbwyntiau a gesglir yn llywio'r broses o ddatblygu polisïau pellach ac yn llywio'r farn ynghylch a oes angen gwaith ymgysylltu penodol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol. Bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei adolygu'n gyson drwy gydol y broses hon.

## 3. Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

**<u>Templed Asesiad o'r Effaith ar Iechyd</u>**

---

**Enw'r penderfyniad:**

*Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru)*

**Diben/nod y penderfyniad:**

*Deddfwriaeth arfaethedig i wella lles anifeiliaid*

---

**ADRAN B: Rhesymeg dros <u>beidio</u> â chynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd:**

- h.y. Nid yw'r penderfyniad arfaethedig o natur strategol ynglŷn â sut mae Gweinidogion Cymru yn arfer eu swyddogaethau.

Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) fyddai'r cam cyntaf mewn rhaglen ehangach a fydd yn diwygio cyfraith bywyd gwyllt yng Nghymru. Mae'r Bil arfaethedig yn cynnwys dau fesur sydd â'r bwriad o wella lles anifeiliaid: creu trosedd newydd o aflonyddu ar forloi yn fwriadol neu'n ddi-hid a chyflwyno tymor caeedig statudol pan fyddai'n anghyfreithlon lladd, anafu neu gymryd ysgyfarnog yn fwriadol neu'n ddi-hid. Mae'r cynigion yn ceisio lleihau dioddefaint anifeiliaid y mae modd ei osgoi, mynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn y fframwaith deddfwriaethol a chefnogi rhyngweithio cyfrifol â bywyd gwyllt trwy amddiffyniadau cyfreithiol cymesur a gorfodadwy.

---

**ADRAN C:**

**Datganiad Sicrwydd y Dirprwy Gyfarwyddwr**

Rwy'n cadarnhau drwy hyn fy mod i, Naomi Matthiessen, yn fodlon *nad* yw'r penderfyniad arfaethedig y mae'r asesiad yn ymwneud ag ef o natur strategol ynghylch sut i arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru.




## 4. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 a chynyddu'r defnydd o'r iaith yn sylweddol.

Mae sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu hefyd yn un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hynny'n golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema yn strategaeth *Cymraeg 2050*:




Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n gallu effeithio ar yr iaith.

Fel rheol gyffredinol, os oes posibilrwydd y gall eich polisi effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg ac felly ar y Gymraeg ei hunan.

1. **Rhif cyfeirio Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith; 02/08/2026**

2. **A yw’r cynnig yn cysylltu’n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050* a'r *Rhaglen Waith* gysylltiedig ar gyfer 2021-2026?**

   Nid oes gan y Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) arfaethedig gysylltiad strategol uniongyrchol â nodau craidd Cymraeg 2050, sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu defnydd pob dydd o'r Gymraeg, a chryfhau'r amodau sy'n cefnogi trosglwyddo'r iaith a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae'r Bil yn fesur lles anifeiliaid a rheoli bywyd gwyllt yn bennaf sy’n cyflwyno trosedd newydd o aflonyddu ar forloi yn fwriadol neu'n ddi-hid a chyflwyno tymor caeedig statudol pan fyddai’n anghyfreithlon lladd, anafu neu gymryd ysgyfarnog yn fwriadol neu’n ddi-hid.

   Fodd bynnag, mae gan y Bil arfaethedig gysylltiad anuniongyrchol ag ymrwymiad ehangach Llywodraeth Cymru i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg gan y bydd yn cael ei gyflwyno o fewn fframwaith Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg. Bydd dogfennau ymgynghori, canllawiau, cyfathrebiadau ac unrhyw ddeunyddiau sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu ymgysylltu â'r polisi, deall eu cyfrifoldebau a chael mynediad at wybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

   Mae'r cysylltiad â Cymraeg 2050 yn gefnogol ac yn anuniongyrchol yn hytrach na chyfraniad uniongyrchol at brif nodau'r strategaeth.

3. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i’r afael â’r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut fydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu effeithiau negyddol)?**

**Effaith gyffredinol:**

Ar y cyfan, disgwylir mai effaith uniongyrchol fach fydd y cynigion yn ei chael ar y Gymraeg. Bwriad y ddeddfwriaeth yw canolbwyntio ar wella lles anifeiliaid drwy fesurau diogelu bywyd gwyllt a pheidio ag effeithio'n uniongyrchol ar hawliau'r Gymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, cymunedau Cymraeg eu hiaith na chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Bydd y prif ystyriaethau o ran y Gymraeg yn codi'n anuniongyrchol drwy weithredu. Byddai gofyn i unrhyw ddogfennau ymgynghori, gwybodaeth i'r cyhoedd, canllawiau, deunyddiau codi ymwybyddiaeth ac unrhyw gyfathrebiadau ategol a gyhoeddir gyda Bil fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n bwysig bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael gafael ar wybodaeth am y troseddau, trefniadau gorfodi ac arferion rheoli bywyd gwyllt yn gyfrifol mor hawdd yn y Gymraeg ag yn Saesneg.

**Sut fydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg?**

Ni nodwyd unrhyw effaith uniongyrchol ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Nid yw'r Bil yn cael effaith ar:

- dai;
- cyfleoedd gwaith;
- symudiad poblogaeth;
- seilwaith cymunedol
- patrymau perchnogaeth tir; neu
- ffactorau economaidd sydd fel arfer yn dylanwadu ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg.

Mae'r cynigion yn berthnasol ledled Cymru ac ni ddisgwylir iddynt effeithio ar gymunedau Cymraeg yn wahanol i gymunedau eraill.

Gall rhai manteision anuniongyrchol godi mewn cymunedau gwledig ac arfordirol lle mae bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol yn rhan bwysig o hunaniaeth leol, hamdden a thwristiaeth. Gall gwell amddiffyniad i forloi ac ysgyfarnogod gyfrannu'n gadarnhaol at werthfawrogiad y cyhoedd o dreftadaeth naturiol Cymru, gan gynnwys mewn ardaloedd lle siaredir y Gymraeg yn eang.

**Effaith y cynnig ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oedran, gan gynnwys oedolion**

Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol uniongyrchol wedi'u nodi ar siaradwyr Cymraeg, na dysgwyr, o unrhyw oedran.

Nid yw'r Bil yn effeithio ar:

- ysgolion cyfrwng Cymraeg
- Addysg Bellach ac Uwch;
- dysgu iaith i oedolion;
- cynnwys y cwricwlwm; neu
- darpariaeth addysgol.

Efallai y bydd cyfleoedd anuniongyrchol cyfyngedig i'r Bil gefnogi ymwybyddiaeth amgylcheddol a bywyd gwyllt ehangach trwy ddeunyddiau addysgol neu gyfathrebiadau cyhoeddus, y gellir eu darparu yn ddwyieithog. Fodd bynnag, nid yw hyn yn brif nod y ddeddfwriaeth arfaethedig.

Nid yw'r Bil yn effeithio:

- cyfleoedd i siarad Cymraeg;
- cyfleoedd i ddysgu Cymraeg;

- trosglwyddo'r Gymraeg o fewn teuluoedd;
- mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg; neu
- mynediad at wasanaethau cyhoeddus Cymraeg.

Bydd unrhyw fanteision gwella lles anifeiliaid a diogelu bywyd gwyllt yn cael eu profi yn gyfartal gan siaradwyr Cymraeg a phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg. Y prif ystyriaeth yw sicrhau bod siaradwyr Cymraeg o bob oed yn gallu cymryd rhan mewn ymarferion ymgynghori, arweiniad a chyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Sut fydd y cynnig yn effeithio ar wasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg?**

Ni ddisgwylir i'r cynigion leihau argaeledd gwasanaethau yn y Gymraeg.

Bydd unrhyw ganllawiau, dogfennau ymgynghori, gwybodaeth i'r cyhoedd, deunyddiau esboniadol a chyfathrebiadau a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth yn parhau i fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru, asiantaethau gorfodi neu Lywodraeth Cymru yn cyfathrebu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ynglŷn â gweithredu'r ddeddfwriaeth arfaethedig, bydd rhwymedigaethau'r Gymraeg yn parhau i fod yn berthnasol.

Ar y cyfan, disgwylir i'r cynnig gael effaith niwtral mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

**Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o’r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a’u bod yn gallu cael mynediad atynt a’u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg?**

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau'r canlynol:

- mae deunyddiau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog;
- mae unrhyw ganllawiau a deunyddiau esboniadol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd;
- mae fersiynau Cymraeg wedi'u harwyddo'n glir;
- gall siaradwyr Cymraeg ymgysylltu â phrosesau ymgynghori drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- mae unrhyw gyfathrebiadau sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n deillio o weithredu yn parhau i gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Bydd y dull hwn yn sicrhau bod gwybodaeth yn y Gymraeg yn parhau i fod yn hygyrch ac ar gael ar sail gyfartal â gwybodaeth yn Saesneg.

**Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?**

Cafodd y strategaeth hon ei llywio gan y canlynol:

- y gwaith datblygu polisi sy'n cefnogi'r Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru);
- yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft;
- ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r cynigion; ac
- Asesiadau Effaith eraill ar y Gymraeg a gwblhawyd mewn perthynas â materion lles anifeiliaid nad oedd yn canfod unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol sylweddol ar y Gymraeg o ddeddfwriaeth lles anifeiliaid tebyg.

Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg a sefydliadau Cymraeg ddarparu tystiolaeth ychwanegol.

**Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?**

Tystiolaeth ychwanegol gan:

- siaradwyr Cymraeg;
- sefydliadau Cymraeg;
- cymunedau gwledig / arfordirol:
- sefydliadau amgylcheddol sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg; ac
- ymatebwyr i'r ymgynghoriad

byddai'n helpu i benderfynu a oes cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cyfathrebu, gweithgareddau ymgysylltu a gweithredu'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn y dyfodol.

**Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?**

Byddai llwyddiant, o safbwynt y Gymraeg, yn golygu'r canlynol:

- dim gostyngiad yn argaeledd gwybodaeth yn y Gymraeg;
- gall siaradwyr Cymraeg ymgysylltu ag unrhyw brosesau ymgynghori a rhoi cynigion ar waith yr un mor hawdd yn Gymraeg ag yn Saesneg;
- mae'r holl ddeunyddiau sy'n wynebu'r cyhoedd yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg;
- nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar gymunedau Cymraeg eu hiaith yn dod i'r amlwg trwy weithredu; ac
- nid yw ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi effeithiau negyddol sylweddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Ar y cyfan, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Bil arfaethedig gael effaith niwtral ar y Gymraeg tra'n sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn parhau i gael gafael ar wybodaeth ac ymgysylltu â'r ddeddfwriaeth ar sail gyfartal â siaradwyr Saesneg.

## 5. Asesiad o’r Effaith ar Fioamrywiaeth

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn cynnwys chwe nod i atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth y dylid eu defnyddio i asesu’r effeithiau ar fioamrywiaeth. Gallant hefyd helpu i ddatblygu a llywio camau gweithredu i gydymffurfio â dyletswydd Adran 6. Maen nhw wedi cael eu symleiddio ar ffurf cyfres o gwestiynau i’ch arwain drwy’r asesiad effaith.

Dylid ystyried y cwestiynau hyn boed eich cynnig yn cynnwys elfen rheoli tir ai peidio, er y bydd rhai yn berthnasol iawn os yw eich maes polisi yn ymwneud â rheoli tir mewn unrhyw ffordd.

Dylech fynd ati’n rhagweithiol i ystyried yr effeithiau posibl ar fioamrywiaeth – dyma un maes lle caiff canlyniadau anfwriadol yn aml eu hesgeuluso, un ai drwy ddiffyg ymwybyddiaeth, neu gan ei bod yn anodd rhoi gwerth ariannol ar fioamrywiaeth.
Ar ben hynny, mae’r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol inni fynd ati’n gadarnhaol i geisio cyfleoedd i gynnal a gwella bioamrywiaeth, yn uniongyrchol (lle bo’r ymyrraeth yn cynnwys rheoli tir neu waith adeiladu) ac yn anuniongyrchol (er enghraifft, lle gallai fod cyfle i hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth). Wrth gwblhau’r asesiad hwn, ystyriwch sut mae gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau yn cyfrannu at nodau eich polisi neu brosiect.

Bydd angen i chi gofnodi’r penderfyniadau a’r effeithiau sy’n deillio o’r asesiad hwn.

<u>**Ymgorffori bioamrywiaeth**</u>

1. **Sut y bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau?**
   - **A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau a’r cyfleoedd cadarnhaol i weithredu dros fioamrywiaeth yn ystod y camau cychwynnol o ystyried neu gynllunio’r prosiect?**
     - **Beth fydd effaith caffael ar fioamrywiaeth, gan gynnwys bioamrywiaeth fyd-eang?**
     - **A yw cynhyrchion yn dod o ffynonellau cynaliadwy?**
     - **A yw eich prosiect yn cynnwys defnyddio deunyddiau neu arferion sy’n niweidio bioamrywiaeth?**
   - **A oes angen i bartneriaid a buddiolwyr ystyried yr effeithiau a’r cyfleoedd i weithredu’n gadarnhaol dros fioamrywiaeth yn ystod camau cychwynnol ystyried neu gynllunio’r prosiect?**
     - **A yw ystyried bioamrywiaeth yn un o ofynion ceisiadau cyllid a manylebau prosiect?**
     - **A yw eich gwerthusiad o’r rhain yn ceisio sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a’i gwella?**

Mae Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) arfaethedig wedi ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth o gamau cynharaf datblygu’r polisi. Byddai’r Bil yn cyflwyno dau fesur lles

anifeiliaid: byddai cyflwyno tymor caeedig statudol ar gyfer ysgyfarnogod pan fyddai'n anghyfreithlon lladd, anafu neu gymryd ysgyfarnog yn fwriadol neu'n ddi-hid a throsedd newydd o aflonyddu ar forloi yn fwriadol neu'n ddi-hid. Er bod y ddau fesur wedi'u bwriadu'n bennaf i fynd i'r afael â phryderon am les anifeiliaid ac anghysondebau deddfwriaethol, mae goblygiadau bioamrywiaeth wedi'u hystyried trwy gydol y gwaith o ddatblygu'r polisi.

Nid yw'r cynnig yn cynnwys caffael, adeiladu, newid cynefinoedd neu ddefnyddio deunyddiau a allai effeithio'n andwyol ar fioamrywiaeth. Nid yw'n creu unrhyw weithgaredd y byddai disgwyl iddo niweidio ecosystemau neu rywogaethau eraill. Mae'r mesurau'n ymwneud yn benodol â rhyngweithio dynol ag ysgyfarnogod a morloi ac yn ceisio lleihau dioddefaint y mae modd ei osgoi i anifeiliaid. Mae'r polisi wedi'i ddatblygu mewn modd sy'n gyson â Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 trwy ystyried cyfleoedd i gynnal bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

Er nad yw'r darpariaethau wedi'u cynllunio fel mesurau i adfer rhywogaethau, gall amddiffyn ysgyfarnogod bridio yn ystod y tymor caeedig a lliniaru aflonyddu niweidiol ar forloi gyfrannu'n gadarnhaol at gynnal poblogaethau a gwella llwyddiant bridio. Disgwylir i'r manteision hyn ddod i'r amlwg heb effeithiau andwyol ar blanhigion neu anifeiliaid eraill. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid neu fuddiolwyr ymgymryd â chamau gweithredu bioamrywiaeth yn uniongyrchol ond mae'n cefnogi amcanion bioamrywiaeth ehangach trwy wella'r gwaith o amddiffyn rhywogaethau bywyd gwyllt brodorol.

**2. A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried fel rhan o benderfyniadau busnes?**

- **A yw wedi ystyried costau oes gyfan sy'n cynnwys gwerth bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol yn y dadansoddiad costau a manteision, hyd yn oed os yw'n broses anffurfiol?**
    - **A ydych wedi ystyried sut y gall gwella bioamrywiaeth helpu i gyflawni ar draws gweithgarwch Llywodraeth Cymru, er enghraifft cefnogi gweithgareddau hamdden egnïol, addysg, atal llifogydd, a thyfu bwyd yn lleol? (Er enghraifft, mae toeau gwyrdd yn helpu i ddarparu cynefinoedd bywyd gwyllt, yn lleihau'r defnydd o ynni ac yn gwella systemau draenio.)**
- **A yw wedi ystyried costau hirdymor dirywiad mewn bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol, a'r potensial ar gyfer arbedion ar gyfer iechyd a llesiant, perygl llifogydd etc?**
- **A yw'n gallu annog partneriaid a buddiolwyr i ystyried y costau a'r arbedion hyn?**

Mae'r cynnig yn cydnabod gwerth bioamrywiaeth a phoblogaethau bywyd gwyllt iach fel rhan o amgylchedd naturiol Cymru. Er nad yw'r Bil yn pennu costau sylweddol ar fusnesau yn gyffredinol, mae'n cydnabod bod bioamrywiaeth ac iechyd ecosystemau yn darparu manteision cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach y dylid eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn ceisio atal niwed i les anifeiliaid sy'n gysylltiedig ag aflonyddu ar forloi a lladd ysgyfarnogod yn ystod y tymor bridio. Er nad yw'r Bil yn cael ei gymell gan bryderon am ostyngiad poblogaethau, mae atal aflonyddu diangen ar forloi ac amddiffyn ysgyfarnogod yn ystod cyfnodau pan allai anifeiliaid ifanc dibynnol fod yn

bresennol, yn gallu cyfrannu'n anuniongyrchol at gynnal poblogaethau iach. Mae hyn yn helpu i osgoi colledion bioamrywiaeth tymor hwy a chostau amgylcheddol cysylltiedig.

Nid yw'r cynnig yn ymwneud â newid defnydd tir, datblygu seilwaith, echdynnu adnoddau neu weithgarwch y byddai disgwyl iddo effeithio ar wasanaethau ecosystemau, atal llifogydd, storio carbon neu swyddogaethau adnoddau naturiol eraill.

**3. Sut mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?**
- **A allwch chi weithio gyda phartneriaid a buddiolwyr i hyrwyddo dealltwriaeth o fioamrywiaeth?**
- **A allwch chi hyrwyddo'r manteision o sicrhau mynediad i fioamrywiaeth drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus megis gofal cymdeithasol, datblygu cymunedol, iechyd a hamdden?**
- **A allwch chi ddarparu neu drefnu hyfforddiant arbenigol lle bo angen?**
- **A allwch chi gysylltu â strategaethau cyfathrebu a mentrau bioamrywiaeth eraill, er enghraifft, cynlluniau gwobrwyo, digwyddiadau lleol?**

Mae'r Bil yn meddu ar y potensial i wneud cyfraniad cadarnhaol at ymwybyddiaeth y cyhoedd o les bywyd gwyllt a bioamrywiaeth. Drwy sefydlu amddiffyniadau cyfreithiol clir ar gyfer morloi ac ysgyfarnogod, mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn atgyfnerthu'r egwyddor y dylid trin anifeiliaid gwyllt mewn ffordd gyfrifol a pharchus. Gall hyn gyfrannu at wella dealltwriaeth y cyhoedd o bwysigrwydd bywyd gwyllt a'r rôl y mae pobl yn ei chwarae wrth leihau aflonyddu a niwed.

Mae gweithredu unrhyw ddeddfwriaeth yn debygol o gynnwys gweithgaredd gwybodaeth gyhoeddus a hybu ymwybyddiaeth ynghylch gwylio bywyd gwyllt cyfrifol, hamdden gyfrifol ac arferion rheoli bywyd gwyllt cyfreithlon. Mae hyn yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo negeseuon bioamrywiaeth ehangach ac annog ymddygiadau cadarnhaol sydd o fudd i fywyd gwyllt ac ecosystemau.

Gall y cynigion hefyd gefnogi mentrau cadwraeth, atal troseddau bywyd gwyllt ac ymwybyddiaeth bioamrywiaeth presennol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau cadwraeth.

<u>**Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro**</u>

**4. A ydych chi wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?**
- **<u>Rhaid</u> i chi ystyried**
  - **y rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)**
  - **yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol**
  - **unrhyw ddatganiad ardal perthnasol a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.**
- **Os yw eich cynnig yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, dylai gyfeirio at y cofnodion bioamrywiaeth sydd ar gael drwy'r canlynol:**
  - **Canolfannau Cofnodion Amgylchedd Lleol**
  - **Atlas Cymru Fyw**

Ydw.

Mae'r asesiad wedi'i lywio gan y canlynol:

- tystiolaeth a gasglwyd wrth ddatblygu Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) arfaethedig;
- tystiolaeth wyddonol a thystiolaeth polisi sy'n ymwneud ag aflonyddu ar forloi;
- tystiolaeth sy'n ymwneud â lles ysgyfarnogod a bioleg fridio;
- ystyriaeth o ddyletswyddau bioamrywiaeth Cymru;
- deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â bywyd gwyllt;
- ymgysylltu â rhanddeiliaid â chyrff cadwraeth, rheoli bywyd gwyllt a gorfodi; ac
- egwyddorion bioamrywiaeth ehangach a adlewyrchir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a chanllawiau Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6.
- Mae morloi llwyd ac ysgyfarnogod yn cael eu cydnabod fel rhywogaethau o bwys mawr ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn ymwneud â lles anifeiliaid ac ni ddisgwylir iddynt arwain at newidiadau o ran bioamrywiaeth.

Nid yw'r cynigion yn awdurdodi gweithgarwch rheoli tir penodol i safle ac felly nid oes angen cyfeirio at gofnodion cynefinoedd lleol, Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol nac arolygon ecolegol ar lefel safle.

**5. A ydych chi wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth?**

- **A ydych chi'n gwybod beth sy'n sbarduno newid a beth yw'r ffactorau negyddol allweddol a allai godi o'ch cynnig?**
- **A ydych chi'n fodlon nad yw'r rhain yn gymwys neu eu bod wedi'u hosgoi?**

Ydw.

Mae'r cynigion wedi ystyried pwysau hysbys sy'n effeithio ar y ddwy rywogaeth.

Ar gyfer morloi, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod aflonyddu yn gallu effeithio ar ymddygiad, llwyddiant bridio a gofal mamau, gan gynnwys sefyllfaoedd lle gall morloi ifanc gael eu gwahanu oddi wrth famau neu lle mae morloi yn troi cefn ar safleoedd bridio. Er nad yw poblogaethau morloi llwyd yn cael eu hystyried mewn perygl ar hyn o bryd, gallai methiant i reoli cynnydd mewn aflonyddu effeithio'n andwyol ar boblogaethau lleol yng Nghymru. Mae'r cynnig felly yn ceisio lleihau'r risg hon cyn i effeithiau mwy sylweddol ddod i'r amlwg.

Ar gyfer ysgyfarnogod, mae'r cynigion yn cydnabod pryderon lles sy'n deillio o ladd ysgyfarnogod yn ystod y tymor bridio pan allai lefrod dibynnol fod yn bresennol. Nid yw'r mesur wedi'i fwriadu fel menter adfer poblogaeth. Byddai saethu ar gyfer rheoli poblogaeth yn parhau i fod ar gael y tu allan i'r tymor caeedig ac nid oes disgwyl unrhyw effeithiau o ran gorboblogaeth.
Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn peri canlyniadau negyddol i rywogaethau, cynefinoedd neu ecosystemau eraill

**6. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?**

- **A yw'n gallu cefnogi mentrau gwyddoniaeth dinasyddion a chynlluniau monitro?**

- **A ydych chi wedi sicrhau bod unrhyw ddata am fioamrywiaeth a gesglir ar gael i'r cyhoedd?**

Nid yw'r Bil arfaethedig yn sefydlu gofynion monitro bioamrywiaeth neu gasglu data. Fodd bynnag, gallai gweithredu wella dealltwriaeth o faterion aflonyddu ar fywyd gwyllt trwy weithgaredd gorfodi, adrodd ac ymgysylltu parhaus â sefydliadau cadwraeth a rhanddeiliaid rheoli bywyd gwyllt.

Gall unrhyw wybodaeth a gesglir ynghylch digwyddiadau o aflonyddu, effeithiau bridio neu gydymffurfiaeth gyfrannu'n anuniongyrchol at gasglu tystiolaeth a datblygu polisi yn y dyfodol ynghylch lles bywyd gwyllt a bioamrywiaeth.

**<u>Dulliau llywodraethu a chymorth i weithredu ar fioamrywiaeth</u>**

**7. A all eich cynnig gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?**
- **A all staff fod yn rhan o weithredu ymarferol?**
- **A allwch chi ariannu unrhyw weithredu yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol?**
- **A allwch chi gefnogi partneriaethau a/neu gydweithio er mwyn mynd ati i weithredu ar fioamrywiaeth yn lleol ac yn gymunedol?**

Ateb cadarnhaol.

Mae'r Bil arfaethedig yn cefnogi gweithredu bioamrywiaeth yn anuniongyrchol trwy amddiffyniad cryfach ar gyfer rhywogaethau bywyd gwyllt brodorol. Gall y drosedd o aflonyddu ar forloi helpu i leihau aflonyddu niweidiol ar forloi sy'n bridio, tra gall tymor caeedig yr ysgyfarnogod leihau effeithiau lles ar ysgyfarnogod llawn dwf sy'n bridio a lefrod dibynnol.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ategu gwaith sefydliadau cadwraeth, partneriaid gorfodi troseddau bywyd gwyllt a chyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â hyrwyddo ymddygiad cyfrifol o amgylch bywyd gwyllt.

Er nad yw'r Bil yn darparu cyllid nac yn creu prosiectau bioamrywiaeth yn uniongyrchol, mae'n cefnogi ymdrechion ehangach i ddiogelu rhywogaethau brodorol ac yn annog rhyngweithio cyfrifol â bywyd gwyllt.

**8. A all eich cynnig helpu i feithrin gallu ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth?**
- **A allwch chi gefnogi camau i gaffael sgiliau a hyfforddiant?**
- **A yw eich cynnig yn sicrhau bod gan y rheiny sy'n rhan o broses o wneud penderfyniadau ynghylch bioamrywiaeth y cymwysterau priodol?**
- **A all eich cynnig ariannu'r gwaith o feithrin gallu er mwyn gweithredu ar fioamrywiaeth?**

Nid yw'r Bil yn creu rhaglenni hyfforddi bioamrywiaeth, gofynion cymwysterau na threfniadau cyllido ffurfiol.

Fodd bynnag, gall unrhyw weithredu wella gallu partneriaid gorfodi, swyddogion troseddau bywyd gwyllt ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol i ymateb i droseddau lles bywyd gwyllt trwy bwerau deddfwriaethol cliriach. Gall hybu ymwybyddiaeth sy'n gysylltiedig ag unrhyw

ddeddfwriaeth hefyd gefnogi dealltwriaeth o ryngweithio cyfrifol â bywyd gwyllt ymhlith aelodau'r cyhoedd a grwpiau rhanddeiliaid.

9. **A ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?**
    - **Rhaid cyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae'r awdurdod cyhoeddus wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd erbyn diwedd 2019 ac yna bob tair blynedd wedi hyn.**

Ydw.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth hwn yn cofnodi sut mae ystyriaethau bioamrywiaeth wedi llywio datblygiad polisi ac yn dangos ystyriaeth o ddyletswydd Gweinidogion Cymru o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad bod disgwyl i'r Bil gael effaith niwtral i effaith gadarnhaol fach ar fioamrywiaeth trwy wella amddiffyniad bywyd gwyllt brodorol, heb greu risgiau wedi'u nodi i gynefinoedd, ecosystemau neu rywogaethau eraill. Mesurau lles anifeiliaid yw'r cynigion yn bennaf ond maen nhw'n gallu cyfrannu'n anuniongyrchol at gynnal bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

**Os yw eich cynnig yn ymwneud ag adeiladu neu reoli tir a/neu'r môr, dylech hefyd ystyried Cwestiynau 10 – 16:**

Nid yw Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) yn gynnig sy'n ymwneud ag adeiladu, datblygu, rheoli tir na rheoli morol. Nid yw'n awdurdodi gweithgareddau, yn dyrannu tir, yn newid cynefinoedd nac yn sefydlu cyfundrefnau rheoli ar gyfer tir neu fôr. Fodd bynnag, oherwydd bod y Bil yn cyflwyno amddiffyniadau sy'n ymwneud â rhywogaethau daearol a morol gwyllt, ystyriwyd Cwestiynau 10-16 er mwyn sicrhau bod unrhyw oblygiadau ar gyfer rhywogaethau, cynefinoedd a gwytnwch ecosystemau wedi cael eu hasesu'n llawn.

<u>Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn</u>

10. **A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth i sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd morol a daearol yn cael eu diogelu?**
    - **A ystyriwyd unrhyw ofyniad am drwyddedau, monitro a/neu gamau gorfodi ac a weithredwyd arnynt?**
    - **A nodwyd unrhyw ofyniad i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol/Asesiad Amgylcheddol Strategol/Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac a weithredwyd ar hynny?**
    - **A nodwyd unrhyw effeithiau neu gyfleoedd i gymryd camau cadarnhaol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd yn Adran 7, ac a weithredwyd ar hynny?**

Do.

Mae'r cynigion wedi cael eu datblygu o fewn y fframwaith presennol o ddeddfwriaeth bywyd gwyllt, lles anifeiliaid a'r amgylchedd. Bwriad y cynigion yw cryfhau amddiffyniadau ar gyfer anifeiliaid gwyllt trwy gyflwyno trosedd o aflonyddu ar forloi a chyflwyno tymor caeedig statudol ar gyfer ysgyfarnogod. Byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn ategu amddiffyniadau presennol yn hytrach na'u disodli neu eu gwanhau.

Mae'r Bil arfaethedig yn rhagweld ymgorffori, yn bennaf , ofynion trwyddedu sy'n bod eisoes mewn cysylltiad â rhywogaethau eraill a rheolaethau rheoli tir, ac ni fydd yn newid prosesau cynllunio na chyfundrefnau asesu amgylcheddol. Nid oes unrhyw ofynion ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, Asesiad Amgylcheddol Strategol neu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'u nodi o ganlyniad i'r cynigion eu hunain.

Nodwyd cyfleoedd ar gyfer gweithredu cadarnhaol mewn perthynas â gwella amddiffyniad rhywogaethau bywyd gwyllt brodorol, yn enwedig trwy leihau aflonyddu ar forloi yn ystod cyfnodau sensitif a lleihau effeithiau lles sy'n gysylltiedig â saethu ysgyfarnogod yn ystod y tymor bridio. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar gynefinoedd gwarchodedig neu rywogaethau a chynefinoedd eraill Adran 7 wedi'u nodi.

**11. A yw'r cynnig yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth yn y lle cyntaf?**

- **A ydych chi wedi dewis yr opsiwn sy'n osgoi colled a/neu ddifrod i fioamrywiaeth, ac sy'n hyrwyddo gwytnwch ecosystemau?**
- **Mewn achosion lle bo cydbwysedd y manteision amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol[1] sy'n cael ei ddarparu gan eich cynnig yn golygu y gellid colli rhywfaint o gynefinoedd neu rywogaethau, a ydych chi wedi ceisio gwella bioamrywiaeth mewn mannau eraill ar y safle, neu os nad oes opsiwn i wneud hynny, yn rhywle oddi ar y safle?**
- **A yw eich cynnig yn cyfrannu at y gwaith o gynnal a gwella bioamrywiaeth <u>ledled</u> Cymru?**

Ydy/Ydw.

Bwriad y cynigion yn bennaf yw gwella lles anifeiliaid yn hytrach na sicrhau adferiad bioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae'r mesurau wedi'u cynllunio mewn ffordd sy'n osgoi effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth ac maen nhw'n gallu cyfrannu at gynnal bioamrywiaeth ledled Cymru.

Mae'r drosedd o aflonyddu ar forloi yn ceisio lleihau gweithgareddau a all ymyrryd ag ymddygiad naturiol, llwyddiant bridio a goroesiad morloi bach. Er nad oes tystiolaeth ar hyn o bryd o bryder cadwraeth sy'n effeithio ar boblogaethau morloi llwyd ar lefel y DU, gallai cynnydd heb ei reoli mewn aflonyddu effeithio'n andwyol ar boblogaethau lleol Cymru dros amser. Felly, mae'r mesur yn gweithredu fel amddiffyniad ataliol rhag pwysau y gellir eu hosgoi.

Yn yr un modd, mae'r tymor caeedig o ran ysgyfarnogod yn ceisio mynd i'r afael â phryderon lles anifeiliaid yn hytrach na dirywiad poblogaeth. Fodd bynnag, gall atal lladd, anafu neu gymryd ysgyfarnogod yn ystod y tymor bridio gyfrannu at gynnal poblogaethau lleol a llwyddiant bridio. Ni ragwelir cynnydd yn y boblogaeth y tu hwnt i lefelau cynaliadwy oherwydd bydd dulliau rheoli poblogaeth cyfreithlon yn parhau i fod ar gael y tu allan i'r tymor caeedig.
Ni ragwelir colli cynefinoedd, colli rhywogaethau neu ddifrod ecosystem o ganlyniad i'r cynigion.

---

[1] Rhoi ystyriaeth briodol i fanteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth ac ecosystemau

**<u>Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol</u>**

**12. A yw eich cynnig yn cyfrannu at ddatblygu gwytnwch ein hecosystemau?**

- **A yw'n gweithio gyda natur, ac yn ystyried y defnydd o atebion seiliedig ar natur yn bennaf?**
- **A yw unrhyw atebion sy'n seiliedig ar natur yn rhai brodorol a bioamrywiol?**
- **A yw'n gallu adfer neu gyfrannu at y gwaith o adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio?**
- **A yw'n gallu cyfrannu at ddatblygu rhwydweithiau o gynefinoedd ecolegol gwydn?**
- **A yw'r cynnig yn gwella rheolaeth safle i wella cyflwr cynefinoedd neu rywogaethau ar <u>unrhyw</u> raddfa? e.e. plannu rhywogaethau brodorol, darparu ardaloedd blodau gwyllt ar gyfer pryfed peillio, gadael ardaloedd o laswellt heb ei dorri; a gwella cysylltedd rhwng cynefinoedd gwerthfawr?**

Gall y Bil arfaethedig wneud cyfraniad cadarnhaol bach at wytnwch ecosystemau trwy amddiffyn rhywogaethau bywyd gwyllt brodorol.

Gallai lleihau aflonyddu ar forloi gefnogi ymddygiad bridio arferol a magu morloi bach yn llwyddiannus. Mae'r cynnig felly yn helpu i leihau pwysau a allai, heb reolaeth, effeithio ar wytnwch poblogaethau morloi lleol. Yn yr un modd, gall tymor caeedig ysgyfarnogod gefnogi bridio a recriwtio anifeiliaid ifanc yn llwyddiannus i boblogaethau lleol.

Nid yw'r cynigion yn cynnwys adfer cynefinoedd, datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, creu rhwydweithiau ecolegol na gweithgareddau rheoli safleoedd. Yn yr un modd, nid oes disgwyl iddynt effeithio'n andwyol ar weithrediad neu wytnwch ecosystemau. Nid oes disgwyl i amddiffyn morloi ac ysgyfarnogod yn y modd a gynigir gael effeithiau canlyniadol ar rywogaethau, cynefinoedd neu gymunedau ecolegol eraill.

Ar y cyfan, disgwylir i'r cyfraniad at wytnwch ecosystemau fod yn un bach ond cadarnhaol.

**13. A yw eich cynnig yn cyfrannu at greu cynefinoedd newydd?**

- **A yw eich cynnig yn cefnogi creu cynefinoedd newydd, megis perllannau lleol, gwrychoedd brodorol, dolydd blodau gwyllt neu ardaloedd eraill o fannau gwyrdd brodorol, bioamrywiol?**
- **A all creu cynefin gyfrannu at ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cadarn?**

Na.

Nid yw'r Bil yn cynnwys creu cynefinoedd, adfer cynefinoedd, newid defnydd tir na gwaith gwella amgylcheddol. Mae'r cynigion yn canolbwyntio ar amddiffyn lles anifeiliaid sy'n ymwneud â dwy rywogaeth wyllt ac nid ydynt yn creu cynefinoedd daearol, dŵr croyw neu forol newydd.

Er y gall y ddeddfwriaeth gyfrannu'n anuniongyrchol at gynnal poblogaethau bywyd gwyllt iach, nid oes disgwyl iddi arwain at greu rhwydweithiau cynefin neu ecolegol newydd

**<u>Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd</u>**

**14. A fydd y cynnig yn achosi unrhyw effeithiau negyddol ar gynefinoedd neu rywogaethau drwy**

- **newid defnydd tir?**
- **achosi llygredd aer, dŵr, golau, sŵn neu ddirgryniad?**

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol.

Nid yw’r Bil yn awdurdodi datblygu, adeiladu, newid defnydd tir, datblygu morol neu addasu cynefinoedd. Nid yw’r cynigion yn creu ffynonellau llygredd aer, dŵr, golau, sŵn neu ddirgryniad ac nid oes disgwyl iddynt arwain at niwed uniongyrchol neu anuniongyrchol i gynefinoedd neu rywogaethau.

Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi’i nodi y byddai amddiffyn morloi rhag dioddef aflonyddu neu gyflwyno tymor caeedig ar gyfer ysgyfarnogod yn effeithio’n andwyol ar rywogaethau bywyd gwyllt eraill, boed yn blanhigion neu’n anifeiliaid.

Yn gyffredinol, mae’r effaith bioamrywiaeth yn cael ei asesu fel effaith niwtral i effaith gadarnhaol bach.

**15. A gydymffurfiwyd â’r holl ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â’r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd? Byddai hyn yn cynnwys:**
- **Rheoli llygredd**
- **Rhywogaethau estron goresgynnol**
- **Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy**
- **Newid Hinsawdd etc**

Do.

Mae’r cynigion wedi’u datblygu gan ystyried y ddeddfwriaeth bresennol ynghylch bywyd gwyllt, yr amgylchedd a lles anifeiliaid, a’u bwriad yw cefnogi bioamrywiaeth, lles bywyd gwyllt a rhyngweithio cyfrifol ag anifeiliaid gwyllt. Nid yw’r Bil yn lleihau nac yn dileu unrhyw amddiffyniadau amgylcheddol presennol ac nid yw’n gwrthdaro â rheolaethau presennol sy’n ymwneud â llygredd, rhywogaethau anfrodorol goresgynnol, diogelu cynefinoedd neu rwymedigaethau newid hinsawdd.

Bwriad y cynigion yw mynd i’r afael â phryderon lles penodol sy’n ymwneud â morloi ac ysgyfarnogod gan barhau i fod yn gyson â fframweithiau ehangach diogelu’r amgylchedd sy’n gweithredu yng Nghymru.

**16. Sut y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru?**
- **A ddefnyddiwyd dulliau system gyfan ac atebion sy’n seiliedig ar natur ac sy’n frodorol ac yn fioamrywiol i leihau llygredd a lliniaru effeithiau newid hinsawdd?**
- **A yw eich cynnig yn defnyddio’r arferion gorau ar gyfer rheoli’r meysydd amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth ac adeiladu yn gynaliadwy?**
- **A yw eich cynnig yn cynnwys camau i gefnogi peillwyr?**

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth wedi’u nodi ac felly nid oes angen mesurau lliniaru penodol.

Disgwylir i’r cynigion gael effaith gadarnhaol niwtral i effaith gadarnhaol fach ar fioamrywiaeth trwy welliannau o ran amddiffyn anifeiliaid gwyllt a rheoli bywyd gwyllt yn

gyfrifol. Nid ydynt yn cynnwys gweithgarwch a fyddai'n gofyn am unioni cynefinoedd, mesurau gwella bioamrywiaeth, rheolaethau llygredd neu liniaru seiliedig ar natur.

Bydd effaith y ddeddfwriaeth yn parhau i gael ei fonitro trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, unrhyw waith cynllunio gweithredu, ymatebion ymgynghoriad ac unrhyw adolygiad ar ôl gweithredu yn y dyfodol. Os bydd unrhyw effeithiau bioamrywiaeth anfwriadol yn dod i'r amlwg, gellir eu hystyried trwy brosesau datblygu ac adolygu polisi yn y dyfodol

**I Grynhoi**

Yn bennaf, mae Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) arfaethedig yn fesur lles anifeiliaid yn hytrach na menter cadwraeth rhywogaethau. Fodd bynnag, disgwylir i'r cynigion gael effaith gadarnhaol niwtral i effaith gadarnhaol fach ar fioamrywiaeth trwy amddiffyn rhywogaethau bywyd gwyllt brodorol yn well, tra nad oes unrhyw effeithiau andwyol eraill ar gynefinoedd, ecosystemau, planhigion neu anifeiliaid wedi'u nodi.

## 6. Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig

**Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig.**

Mae Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) arfaethedig yn cynnwys dau fesur sydd â’r bwriad o wella lles anifeiliaid: cyflwyno tymor caeedig statudol ar gyfer ysgyfarnogod pan fyddai’n anghyfreithlon lladd, anafu neu gymryd ysgyfarnog yn fwriadol neu’n ddi-hid a throsedd newydd o aflonyddu ar forloi yn fwriadol neu’n ddi-hid. Mae’r Bil yn berthnasol ledled Cymru ond mae ganddo berthnasedd arbennig i rai cymunedau gwledig ac arfordirol oherwydd bod y gweithgareddau sy’n cael eu heffeithio gan y cynigion yn digwydd yn bennaf yn yr ardaloedd hynny.

Yn gyffredinol, disgwylir i’r effeithiau ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig fod yn isel iawn. Nid yw’r Bil yn creu gwasanaethau newydd, yn gosod baich gweinyddol sylweddol nac yn gofyn am newidiadau mawr mewn arferion rheoli tir. Disgwylir i’r prif effeithiau ddod i’r amlwg trwy welliannau o ran amddiffyn lles anifeiliaid a mwy o eglurder o fewn y fframwaith deddfwriaethol sy’n llywodraethu rhyngweithio â bywyd gwyllt.

Gall tymor caeedig ysgyfarnogod effeithio ar nifer fach o berchnogion tir, ffermwyr, diddordebau helwriaeth ac eraill sy’n ymwneud â rheoli ysgyfarnogod. Yn ystod y tymor caeedig, efallai y bydd angen i bobl sy’n dymuno ymgymryd â gweithgarwch rheoli at ddibenion penodol, gan gynnwys atal difrod difrifol i gnydau, wneud cais am drwydded. Er bod hyn yn cyflwyno gofyniad gweinyddol cyfyngedig, nid yw’r cynnig yn atal gweithgarwch rheoli angenrheidiol lle bo hynny’n gyfiawn. Mae’r cynnig wedi’i gynllunio i fynd i’r afael â phryderon lles anifeiliaid sy’n gysylltiedig â lladd ysgyfarnogod yn ystod eu tymor bridio ac nid yw’n bwriadu atal rheoli poblogaeth mewn ffordd gyfreithlon. Byddai saethu cyfreithlon yn parhau y tu allan i’r tymor caeedig ac ni ragwelir gorboblogi.

Gall y drosedd o aflonyddu ar forloi effeithio ar rai defnyddwyr hamdden fel cerddwyr a pherchnogion cŵn, gweithredwyr twristiaeth bywyd gwyllt, ffotograffwyr, gweithrediadau pysgota, a gweithredwyr llongau sy’n gweithredu mewn ardaloedd arfordirol. Fodd bynnag, bwriad y cynnig yw annog ymddygiad cyfrifol o gwmpas bywyd gwyllt ac nid oes disgwyl iddo atal gweithgareddau hamdden, masnachol neu dwristiaeth cyfreithlon lle mae’r rhain yn cael eu gwneud yn gyfrifol.

Gall y cynigion ddarparu manteision anuniongyrchol i gymunedau gwledig ac arfordirol drwy gefnogi hyder y cyhoedd mewn gwarchod bywyd gwyllt a chyfrannu at les rhywogaethau sy’n rhan o dreftadaeth naturiol Cymru.

**Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar fywydau pobl wledig, naill ai’n gadarnhaol neu’n negyddol?**

Gallai’r effeithiau cadarnhaol gynnwys:

- gwell amddiffyniadau lles ar gyfer bywyd gwyllt mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol;
- mwy o eglurder ynghylch rhyngweithiadau cyfreithlon ag ysgyfarnogod a morloi;
- cefnogaeth ar gyfer rheoli bywyd gwyllt yn gyfrifol a thwristiaeth bywyd gwyllt;
- atgyfnerthu enw da Cymru am safonau lles uchel i anifeiliaid; a
- manteision posibl o ran mwynhad a gwerthfawrogiad y cyhoedd o fywyd gwyllt.

Mae effeithiau negyddol posibl yn gyfyngedig.

Byddai tymor caeedig ysgyfarnogod yn atal saethu ysgyfarnogod yn ystod cyfnod penodol o'r flwyddyn i unigolion sy'n ymgymryd â gweithgaredd o'r fath ar hyn o bryd. Byddai'n drosedd (yn amodol ar nifer o eithriadau ac ar y posibilrwydd o gael trwydded) saethu ysgyfarnog yn ystod y tymor caeedig ond ni fyddai hyn yn atal saethu y tu allan i'r cyfnod hwnnw lle bo hynny'n gyfreithlon fel arall. Nid oes disgwyl unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar fywoliaethau gwledig, cynhyrchiant amaethyddol na rheoli tir.

**A fydd mynediad yn broblem i bobl wledig? Os felly, beth fydd yn cael ei wneud i oresgyn rhwystrau o ran mynediad?**

Ni nodwyd unrhyw drafferthion mynediad.

Nid yw'r Bil arfaethedig yn effeithio ar fynediad at wasanaethau cyhoeddus, trafnidiaeth, gofal iechyd, addysg na chyfleoedd cyflogaeth. Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r deunyddiau ymgynghori ar gael yn ddigidol a thrwy sianeli cyfathrebu presennol. Bydd fformatau amgen ar gael ar gais yn ôl yr angen.

**Sut y mae'r cynnig wedi ystyried anghenion pobl cefn gwlad e.e. y boblogaeth hŷn, diffyg tai fforddiadwy, gofynion ieithyddol?**

Mae'r cynigion wedi'u datblygu i fod yn gymesur ac yn berthnasol yn gyson ledled Cymru. Nid ydynt yn effeithio ar dai, gofal iechyd, addysg neu wasanaethau eraill sy'n aml yn gysylltiedig ag ystyriaethau prawfesur gwledig.

Bydd gofynion iaith Gymraeg yn parhau i gael eu parchu drwy ddeunyddiau ymgynghori, canllawiau a chyfathrebu cyhoeddus dwyieithog. Bydd gwybodaeth am unrhyw ddeddfwriaeth a allai gael ei chyflwyno o ganlyniad i'r cynigion ar gael drwy'r Gymraeg a'r Saesneg yn unol â safonau Llywodraeth Cymru.

Nid oes disgwyl i'r cynigion effeithio'n wahanol ar bobl hŷn sy'n byw mewn cymunedau gwledig.

**A fydd y cynnig yn arwain at agor gwasanaethau newydd neu gau gwasanaethau sy'n bodoli eisoes? Sut y byddwch yn cynyddu i'r eithaf yr effeithiau cadarnhaol ac yn lliniaru'r effeithiau negyddol?**

Na fydd.

Nid yw'r Bil yn creu gwasanaethau cyhoeddus newydd ac nid yw'n gofyn am gau neu leihau gwasanaethau presennol.

Bydd effeithiau cadarnhaol yn cael eu hybu i'r eithaf trwy ganllawiau clir, cyfathrebu hygyrch ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod gweithredu. Bydd unrhyw effeithiau negyddol posibl yn cael eu lliniaru trwy hybu ymwybyddiaeth, gorfodi cymesur ac esboniad clir o gwmpas y troseddau newydd.

**A yw’n ofynnol prynu neu ddefnyddio tir o dan y polisi? A ydych wedi ystyried ffactorau gwledig fel gwerth tir, faint ohono sydd ar gael neu ddynodiadau cyfyngol?**

Nac ydy.

Nid yw’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol prynu, caffael neu ddefnyddio tir ac nid oes ganddo unrhyw oblygiadau ar werth tir, argaeledd tir, trefniadau tenantiaethau amaethyddol na dynodiadau defnydd tir.

Mae’r cynigion yn rheoleiddio ymddygiad tuag at fywyd gwyllt yn hytrach na pherchnogaeth, rheoli neu ddatblygu tir.

**A fydd y cynnig yn gweithio ar dirwedd anodd, fel ffyrdd cul ac ardaloedd mynyddig? Os na fydd yn gweithio, sut bydd rhwystrau yn cael eu goresgyn?**

Bydd.

Er bod rhai safleoedd gorffwys morloi a lleoliadau arfordirol yn anghysbell ac yn gallu cyflwyno heriau ymarferol o ran monitro a gorfodi, mae heriau tebyg eisoes yn bodoli ar gyfer troseddau bywyd gwyllt a gweithgarwch rheoleiddio mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol. Bydd awdurdodau gorfodi yn parhau i ddefnyddio prosesau adrodd, ymchwilio a chasglu tystiolaeth sefydledig, ac nid yw effeithiolrwydd y troseddau yn dibynnu ar fynediad ffisegol parhaol neu seilwaith ffisegol.

Nid oes unrhyw rwystrau wedi’u nodi a fyddai’n atal y ddeddfwriaeth rhag gweithredu’n effeithiol mewn tir anghysbell neu anodd.

**A yw’r cynnig yn berthnasol i fusnesau bach a chanolig neu ficrofentrau?**

Gall y cynnig fod yn berthnasol i rai ffermwyr a nifer cyfyngedig o fusnesau gwledig bach gan gynnwys gweithredwyr twristiaeth bywyd gwyllt, busnesau ffotograffiaeth bywyd gwyllt, darparwyr gweithgareddau hamdden a rhai diddordebau helwriaeth.

Nid oes unrhyw gostau sylweddol i fusnesau bach a chanolig neu ficrofentrau wedi’u nodi.

Nid oes disgwyl i weithgareddau twristiaeth bywyd gwyllt cyfrifol gael eu heffeithio mewn ffordd andwyol a gallant elwa o ddisgwyliadau cliriach ynghylch rhyngweithio â bywyd gwyllt. Nid yw’r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau gael offer, adeiladau neu seilwaith newydd.

Ystyrir nad oed oes angen trefniadau cymorth penodol.

Bydd canlyniadau’r ymgynghoriad yn helpu i lywio ystyriaethau pellach.

**A yw’r cynnig yn dibynnu ar seilwaith fel cysylltiadau ffordd/rheilffordd da neu fand eang cyflym neu gysylltedd da ar gyfer ffonau symudol?**

Nac ydy.

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn dibynnu ar seilwaith trafnidiaeth, cysylltedd digidol na seilwaith telathrebu er mwyn gweithredu'n effeithiol.

Bydd gwybodaeth ac arweiniad ar gael trwy ystod o sianeli cyfathrebu i sicrhau hygyrchedd i randdeiliaid sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol mwy anghysbell.

**Sut mae'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â thlodi mewn ardaloedd gwledig?**

Nid yw'r Bil wedi'i fwriadu fel mesur gwrth-dlodi ac nid oes disgwyl iddo gael effaith uniongyrchol ar dlodi, lefelau incwm na chostau byw.

Nid yw'r cynigion yn pennu costau sylweddol ar aelwydydd ac nid oes disgwyl iddynt effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth na mynediad at wasanaethau.

Drwy gefnogi lles bywyd gwyllt a hyder y cyhoedd yn amgylchedd naturiol Cymru, gall y ddeddfwriaeth gyfrannu'n anuniongyrchol at atyniad ardaloedd gwledig ac arfordirol ar gyfer hamdden a thwristiaeth, ond disgwylir i unrhyw effeithiau economaidd fod yn gyfyngedig.

**Pa gyswllt fu rhyngoch chi a rhanddeiliaid gwledig?**

Mae datblygu polisi wedi cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion, gan gynnwys sefydliadau cadwraeth, sefydliadau lles anifeiliaid, Cyfoeth Naturiol Cymru, partneriaid gorfodi a rhanddeiliaid sydd â buddiannau mewn rheoli tir, gweithgareddau gwledig a bywyd gwyllt.

Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn rhoi cyfle pellach i randdeiliaid gwledig, gan gynnwys perchnogion tir, ffermwyr, busnesau gwledig a sefydliadau cynrychiadol, ddarparu tystiolaeth ar effeithiau posibl ac ystyriaethau gweithredu.

Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi hyd yma sy'n awgrymu effeithiau andwyol sylweddol ar gymunedau gwledig.

**Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan bobl cefn gwlad neu eu cynrychiolwyr?**

Mae'r asesiad hwn wedi'i lywio gan:

- datblygiad Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) arfaethedig;
- ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y gwaith o ddatblygu polisi;
- tystiolaeth sy'n ymwneud ag aflonyddu ar forloi;
- tystiolaeth sy'n ymwneud â lles ysgyfarnogod a bioleg fridio;
- datblygu Asesiadau Effaith eraill; ac
- ystyried effeithiau ar reolwyr tir, defnyddwyr arfordirol, gweithredwyr twristiaeth a chymunedau gwledig.

**Pa dystiolaeth arall fyddai'n llywio'r asesiad?**

Byddai tystiolaeth ychwanegol gan:

- sefydliadau ffermio;
- cyrff cynrychiadol gwledig;

- rhanddeiliaid rheoli tir;
- cymunedau arfordirol;
- gweithredwyr twristiaeth bywyd gwyllt;
- sefydliadau saethu; ac
- ymatebwyr i'r ymgynghoriad

yn helpu i lywio'r asesiad terfynol o effeithiau gwledig a nodi unrhyw faterion gweithredu sydd angen eu hystyried ymhellach.

**Crynodeb**

Ar y cyfan, disgwylir na fydd Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) prin yn cael effaith ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig. Mae unrhyw effeithiau yn debygol o fod yn gyfyngedig, yn gymesur ac yn canolbwyntio ar nifer fach o weithgareddau sy'n ymwneud â rheoli ysgyfarnogod a rhyngweithio â morloi, tra disgwylir manteision ehangach drwy welliannau i les bywyd gwyllt ac ymgysylltu'n gyfrifol ag amgylchedd naturiol Cymru.

## 7. Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Nid ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth y mae Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) arfaethedig, ac nid yw'n rheoleiddio arferion ffermio, rheoli tir, cymorth amaethyddol na chynhyrchu bwyd. Serch hynny, byddai'r tymor caeedig arfaethedig ar gyfer ysgyfarnogod yn ei gwneud yn drosedd cynnal gweithgaredd sy'n digwydd yn gyffredin ar dir amaethyddol trwy ei gwneud yn anghyfreithlon lladd, anafu neu gymryd ysgyfarnog yn ystod cyfnod penodol o'r tymor bridio, ac eithrio o dan drwydded at ddibenion penodol, gan gynnwys atal difrod difrifol i gnydau. Gan y gall y cynnig effeithio ar weithgareddau sy'n digwydd ar dir amaethyddol, mae'n gallu defnyddio'r ddyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Ar y llaw arall, cyfyngedig iawn yw'r berthnasedd rhwng y drosedd arfaethedig o aflonyddu ar forloi ac amaethyddiaeth, tir amaethyddol neu weithgareddau amaethyddol ategol. Felly, mae'r asesiad yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnig tymor caeedig ysgyfarnogod wrth ystyried amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

**<u>Asesiad Effaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy:</u>**

**Cwestiwn 2: Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol, ar gyfer amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.**

***Rhowch dystiolaeth/mynegwch farn ar gyfer pob un o'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy:***

1. **Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy**

   Nid oes disgwyl i'r Bil arfaethedig gael effaith sylweddol ar gynhyrchu amaethyddol na chynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn ffordd gynaliadwy.

   Y prif fesur sy'n berthnasol i amaethyddiaeth yw cynnig cyflwyno tymor caeedig statudol pan fyddai'n anghyfreithlon lladd, anafu neu gymryd ysgyfarnog yn fwriadol neu'n ddi-hid. Mae ysgyfarnogod yn gyffredin ar dir amaethyddol ac felly mae'r cynnig yn mynd i effeithio ar rai perchnogion tir, ffermwyr ac eraill sy'n ymwneud â rheoli ysgyfarnogod. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn rheoleiddio arferion amaethyddol, defnydd tir, systemau cnydau, cynhyrchu da byw na threfniadau cymorth amaethyddol.

   Bwriad y mesur yw mynd i'r afael â phryder hysbys am les anifeiliaid trwy atal lladd ysgyfarnogod yn ystod y tymor bridio pan fydd lefrod dibynnol yn bresennol. Mae'n hi'n bosibl y gallai hyn gael effaith ar gynhyrchu bwyd, er enghraifft, lle bydd ysgyfarnog yn bwyta ac yn dinistrio cnydau. Rhoddwyd sylw i senario o'r fath pan gafodd y polisi ei ddatblygu a'r cynnig yw y byddai ffermwyr a rheolwyr tir sy'n dioddef difrod difrifol i gnydau yn ystod y tymor caeedig yn gallu gwneud cais am drwydded i'w difa. Mae hyn yn cyflwyno cam gweinyddol ychwanegol ar gyfer nifer

gymharol fach o reolwyr tir a allai fod eisiau rheoli ysgyfarnogod yn ystod y tymor caeedig, ond nid yw'r cynnig yn atal rheoli poblogaeth lle mae angen cyfreithlon.

Gan y byddai saethu cyfreithlon yn parhau i gael ei ganiatáu y tu allan i'r tymor caeedig, ac y byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn cynnwys eithriadau a mecanwaith trwyddedu at ddibenion penodol gan gynnwys atal difrod difrifol i gnydau, ni ragwelir unrhyw effeithiau materol ar gynhyrchiant amaethyddol, cynhyrchu bwyd na gallu rheolwyr tir i gynhyrchu nwyddau eraill yn gynaliadwy.

**2. Lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd**

Nid oes disgwyl i'r Bil gael effaith uniongyrchol ar liniaru effeithiau newid hinsawdd neu addasu ar ei gyfer.

Nid yw'r cynigion yn newid yn fawr systemau cynhyrchu amaethyddol, arferion rheoli tir, allyriadau nwyon tŷ gwydr, atafaelu carbon, defnydd ynni nac effeithlonrwydd adnoddau. Nid oes unrhyw effeithiau ar addasu i'r hinsawdd wedi'u nodi.

Mae'r mesurau yn canolbwyntio ar les anifeiliaid yn hytrach na pholisi hinsawdd.

Yn unol â hynny, disgwylir i'r effaith yn erbyn yr amcan hwn fod yn niwtral.

**3. Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu**

Gall y Bil arfaethedig wneud cyfraniad cadarnhaol bach i'r amcan hwn.

Er nad yw'r naill fesur na'r llall wedi'i ddatblygu fel menter cadwraeth rhywogaethau, gall y ddau gefnogi gwytnwch poblogaethau bywyd gwyllt brodorol. Gall y tymor caeedig ar gyfer ysgyfarnogod gyfrannu at fridio llwyddiannus trwy leihau'r risg bod anifeiliaid beichiog gyda lefrod dibynnol yn cael eu saethu yn ystod y tymor bridio. Gall y drosedd o aflonyddu ar forloi leihau gweithgareddau sy'n effeithio'n andwyol ar ymddygiad bridio, goroesiad morloi bach a'r defnydd llwyddiannus o safleoedd gorffwys.

Ar hyn o bryd, nid yw poblogaethau morloi llwyd yn cael eu hystyried dan fygythiad o safbwynt cadwraeth. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu y gall aflonyddu heb ei reoli effeithio ar lwyddiant bridio a lles morloi ifanc. Felly, mae'r cynnig yn darparu mecanwaith ataliol i leihau pwysau y mae modd eu hosgoi.

Nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar rywogaethau, cynefinoedd neu swyddogaethau ecosystemau eraill wedi'u nodi, ac nid oes disgwyl i'r mesurau arwain at newidiadau i reoli tir, cyflwr cynefin neu fioamrywiaeth mewn mannau eraill.

Yn gyffredinol, disgwylir i'r Bil gael effaith gadarnhaol niwtral i effaith gadarnhaol fach ar wytnwch ecosystemau.

**4. Cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.**

Gallai'r Bil arfaethedig wneud cyfraniad cadarnhaol cymedrol i'r amcan hwn.

Mae ysgyfarnogod a morloi yn rhan o dreftadaeth naturiol Cymru ac yn rhywogaethau y mae llawer o bobl yn ymgysylltu â nhw yn ystod hamdden ac ymweliadau ag ardaloedd gwledig ac arfordirol. Drwy gefnogi safonau lles anifeiliaid gwell a rhyngweithiadau cyfrifol â bywyd gwyllt, gall y Bil gyfrannu'n gadarnhaol at werthfawrogiad y cyhoedd o'r amgylchedd naturiol.

Nid yw'r cynigion yn cyfyngu ar fynediad y cyhoedd i gefn gwlad neu'r arfordir ac nid oes disgwyl iddynt effeithio ar fwynhad hamdden lle mae gweithgareddau yn cael eu cynnal yn gyfrifol.

Nid oes disgwyl i'r Bil gael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg. Bydd ystyriaethau mewn perthynas â'r Gymraeg yn parhau i gael eu trafod drwy ddeunyddiau ymgynghori, canllawiau a chyfathrebu dwyieithog yn unol â gofynion ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru.

Disgwylir i'r effeithiau cyffredinol yn erbyn yr amcan hwn fod yn fach ond yn fras gadarnhaol.

**Cwestiwn 3: Ystyriwch sut y bydd eich polisi yn cael ei weithredu yn y ffordd sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaeth yn briodol).**

***Rhowch dystiolaeth/mynegwch farn ar gyfer pob un o'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy:***

1. **Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy**

   Os penderfynir bwrw ymlaen â'r Bil, wrth ei weithredu, ceisir sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithredu'n gymesur ac nad yw'n creu beichiau diangen i ffermwyr, rheolwyr tir neu fusnesau gwledig.

   Mae'r tymor caeedig ar gyfer ysgyfarnogod wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â phryderon lles anifeiliaid gan gynnal ymagwedd gymesur at anghenion rheoli tir cyfreithlon. Bydd gweithgareddau rheoli poblogaeth presennol yn gallu parhau y tu allan i'r tymor caeedig ac, yn ystod y tymor caeedig, mae'r cynigion yn cynnwys eithriadau i'r drosedd newydd a mecanwaith trwyddedu fydd ar gael at ddibenion penodol, gan gynnwys atal difrod difrifol i gnydau. Bydd canllawiau clir ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cefnogi dealltwriaeth o'r trefniadau trwyddedu a chydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth.
   Mae'r dull hwn yn galluogi i'r amcan polisi gael ei gyflawni heb effeithio'n andwyol ar gynhyrchu amaethyddol cynaliadwy.

2. **Lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd**

   Nid oes angen mesurau gweithredu penodol o dan yr amcan hwn oherwydd nid oes disgwyl i'r Bil gael effeithiau uniongyrchol ar yr hinsawdd.

Bydd gweithredu yn canolbwyntio ar gyflawni'r amcanion lles anifeiliaid wrth sicrhau nad oes unrhyw rwystrau y mae modd eu hosgoi i reolwyr tir neu randdeiliaid gwledig.

3. **Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu**

   Bydd gweithredu yn cefnogi'r amcan hwn trwy amddiffyn rhywogaethau bywyd gwyllt brodorol yn gymesur.

   Bydd y drosedd o aflonyddu ar forloi yn darparu fframwaith ar gyfer lleihau aflonyddu niweidiol, yn enwedig o amgylch gweithgarwch bridio a lles morloi bach. Bydd tymor caeedig ysgyfarnogod yn lleihau'r risgiau lles sy'n gysylltiedig â saethu yn ystod y tymor bridio. Gyda'i gilydd, gall y mesurau hyn gefnogi poblogaethau bywyd gwyllt iach heb fod angen newidiadau i arferion rheoli tir ehangach.

   Bydd canllawiau a chyfathrebu yn hyrwyddo dealltwriaeth o ymddygiad cyfrifol tuag at fywyd gwyllt ac yn cefnogi cydymffurfio pe câi'r ddeddfwriaeth ei gwneud.

4. **Cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.**

   Pe câi'r ddeddfwriaeth ei gwneud, bydd unrhyw waith gweithredu yn ceisio cefnogi'r gallu parhaus i fwynhau cefn gwlad ac arfordir Cymru yn gyfrifol wrth wella safonau amddiffyn bywyd gwyllt.

   Bydd canllawiau a chyfathrebu cyhoeddus yn esbonio pwrpas y ddeddfwriaeth ac yn annog rhyngweithio cyfrifol â bywyd gwyllt. Bydd deunyddiau yn parhau i fod ar gael yn ddwyieithog, gan gefnogi ymgysylltu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.

   Nid bwriad y ddeddfwriaeth arfaethedig yw effeithio ar hawliau mynediad i'r cyhoedd neu ddefnydd hamdden cyfrifol o ardaloedd gwledig ac arfordirol, a bydd gweithredu yn ceisio sicrhau bod y mesurau'n parhau i fod yn gymesur ac yn hygyrch i'r rhai sy'n cael eu heffeithio.

**Crynodeb**

Nid polisi amaethyddol yn bennaf yw Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) arfaethedig, a'r disgwyl yw mai rhyngweithio cyfyngedig fydd rhyngddo â'r ddyletswydd Rheoli Tir Cynaliadwy. Mae'r prif berthnasedd yn deillio o'r tymor caeedig arfaethedig ar gyfer ysgyfarnogod, a allai effeithio ar weithgareddau sy'n digwydd ar dir amaethyddol. Yn gyffredinol, disgwylir i'r Bil gael effeithiau cadarnhaol niwtral i fân mewn perthynas ag amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy trwy wella lles anifeiliaid a chefnogi rheolaeth gyfrifol o fywyd gwyllt brodorol heb effeithio'n andwyol ar gynhyrchu amaethyddol cynaliadwy, gwytnwch ecosystemau, cymunedau gwledig neu ymgysylltu â'r cyhoedd â chefn gwlad.

## 8. Sgrinio ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae'r cynnig wedi cael ei ystyried yn erbyn gofynion Rheoliadau Asesu Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.

Byddai Bil Lles Anifeiliaid Gwyllt (Cymru) arfaethedig yn cyflwyno dau fesur lles anifeiliaid wedi'u targedu: trosedd newydd, sef aflonyddu ar forloi yn fwriadol neu'n ddi-hyd a thymor caeedig statudol ar gyfer ysgyfarnogod. Ni fyddai'r Bil arfaethedig yn dyrannu tir, yn awdurdodi datblygu, yn sefydlu fframwaith ar gyfer penderfyniadau caniatâd datblygu nac yn darparu ar gyfer rhaglenni gwaith. Ei brif bwrpas fyddai gwella lles anifeiliaid.

Ni fyddai'r Bil arfaethedig yn sefydlu fframwaith ar gyfer caniatâd datblygu yn y dyfodol a byddai'n ymwneud yn bennaf â mesurau lles anifeiliaid.

Ar sail y cynigion polisi sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd, nid oes unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol o'r math sydd fel arfer yn cael eu cysylltu â chynlluniau a rhaglenni y mae angen Asesiad Amgylcheddol Strategol arnyn nhw wedi cael eu nodi. Yr asesiad presennol felly yw nad oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol llawn ar hyn o bryd.

Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu yn ystod ac ar ôl yr ymgynghoriad. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol sy'n dod i law, gan gynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiau amgylcheddol, safleoedd gwarchodedig, rheoli rhywogaethau, gofynion trwyddedu neu effeithiau gweithredu, yn cael eu hystyried cyn dod i gasgliad terfynol. Bydd y casgliad yn cael ei adlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Integredig sy'n cyd-fynd â chyflwyno unrhyw Fil sy'n mynd yn ei flaen.

## 9. Sgrinio ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae'r cynnig wedi cael ei ystyried yn erbyn gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Byddai'r Bil arfaethedig yn cyflwyno trosedd newydd sy'n ymwneud ag aflonyddu ar forloi a throsedd sy’n ymwneud â lladd, anafu neu gymryd ysgyfarnogod yn fwriadol neu’n ddi-hid yn ystod tymor caeedig. Byddai'r ddwy drosedd yn atal gweithgareddau yn hytrach nag awdurdodi datblygu neu wneud gwaith ffisegol ar dir neu newid defnydd tir. Nid oes unrhyw lwybr wedi cael ei nodi ar hyn o bryd lle y gallai'r darpariaethau eu hunain arwain at effeithiau sylweddol tebygol ar nodweddion cymwys Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig neu safle Ramsar.

Byddai rhai eithriadau i’r troseddau arfaethedig a byddai’r cynigion yn galluogi gweithgareddau penodol a fyddai fel arall yn drosedd i gael eu hawdurdodi drwy'r fframwaith trwyddedu presennol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Fodd bynnag, ni fyddai trwyddedau sydd ar gael o dan y fframwaith hwnnw ynddyn nhw eu hunain yn awdurdodi unrhyw weithgaredd. Byddai unrhyw gais am drwydded yn y dyfodol yn cael ei ystyried ar wahân gan yr awdurdod trwyddedu perthnasol ac, os bydd hynny'n berthnasol, byddai'n parhau i fod yn ddarostyngedig i ofynion y Rheoliadau Cynefinoedd, gan gynnwys sgrinio ac asesu priodol pan fydd angen.

Ar sail y cynigion polisi sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd, yr asesiad presennol yw nad oes angen asesiad priodol, sef y cam ar ôl y sgrinio. Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol debygol ar Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig na safle Ramsar wedi cael eu nodi mewn perthynas â'r Bil arfaethedig ei hun.

Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu yn ystod ac ar ôl yr ymgynghoriad. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol sy'n dod i law, gan gynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud ag effeithiau amgylcheddol, safleoedd gwarchodedig, rheoli rhywogaethau, gofynion trwyddedu neu effeithiau gweithredu, yn cael eu hystyried cyn dod i gasgliad terfynol. Bydd y casgliad yn cael ei adlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Integredig sy'n cyd-fynd â chyflwyno unrhyw Fil sy'n mynd yn ei flaen.

Datganiad

Rwy'n fodlon bod effaith y camau gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.



Enw'r Uwch-swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: Naomi Matthiessen

Adran: Yr Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth